



Cyfarfod

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 15FED GORFFENAF, 2021

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 7 Gorffennaf 2021)

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

AELODAETH (19)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Berwyn Parry Jones
Paul John Rowlinson
Sedd Wag

Aled Wyn Jones
Peredur Jenkins
Gethin Glyn Williams

Huw Gruffydd Wyn Jones
W. Gareth Roberts
E. Selwyn Griffiths

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
John Pughe Roberts
Richard Medwyn Hughes

Dewi Wyn Roberts
Angela Russell

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Sedd Wag

Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd Sion W. Jones

Aelod Lleyg (1)

Mrs Sharon Warnes

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 20

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgorau hwn a gynhaliwyd 27 Mai a 17 Mehefin 2021 fel rhai cywir

5. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU

21 - 55

I dderbyn diweddariad ar raglen waith Chwarter 1 Archwilio Cymru

- Diweddariad Chwarterol: hyd at 30 Mehefin 2021
- Adolygiad Cynnydd Bargaen Twf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUE)
- Ymateb Rheolwyr i gynnydd rhaglen waith BUE

6. ADOLYGIAD FFORDD GWYNEDD

56 - 60

I hysbysu'r Aelodau o gasgliadau'r Archwiliwr Dosbarth ac adrodd ar y camau nesaf arfaethedig

7. TREFNIADAU RHEOLI RISG

61 - 87

I dderbyn yr adroddiad fel diweddariad ar y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i sicrhau fod cofrestr risg gyflawn yn ei le ac yn cael chynnal, ac ystyried y risgiau uchaf mae'r Cyngor yn eu wynebu.

8. GWYDNWCH SYSTEMAU T.G. - DIOGELWCH SEIBR

88 - 92

I ddiweddarau'r Pwyllgor am wytnwch diogelwch seibr Cyngor Gwynedd, a rhoi cyfle i'r aelodau graffu'r sefyllfa. Bu sôn am ymosodiadau seibr yn y newyddion yn ddiweddar, a gyda chynnydd yn ein dibyniaeth a defnydd o dechnoleg, mae'n amserol i adrodd ar yr hyn sy'n digwydd yn lleol yn y Cyngor.

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 17/6/21

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Cadeirydd: Cynghorydd John Pughe Roberts
Is gadeirydd: Cynghorydd Medwyn Hughes

Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, Berwyn P Jones, Huw W Jones, Sion Jones, Dewi Roberts, Paul Rowlinson ac Angela Russell

Sharon Warnes (Aelod Lleyg)

Swyddogion:

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Siân Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) Eleri Williams (Arweinydd Tîm Gwefan) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol)
Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru)
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Aled LI Evans, Peredur Jenkins a Gethin Glyn Williams

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. PROSIECT HUNANWASANAETH Y WEFAN GORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor, yn dilyn trafodaeth yn y Gweithgor Craffu (10/05/21), yn amlinellu'r ymdrechion a fu ers 2016 i gynyddu'r ddarpariaeth ryngweithiol ar y wefan i geisio sicrhau bod modd cysylltu yn rhwydd gyda'r Cyngor 24 awr o'r dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Nodwyd bod cynnydd sylweddol yn nifer y trigolion sydd yn defnyddio'r gwasanaeth sy'n gadarnhaol ac yn cadarnhau gwerth y buddsoddiad. Ategwyd bod y gwasanaeth yn parhau i ddatblygu a chydweithio gyda Gwasanaethau ac yn ymgynghori gydag Awdurdodau eraill i geisio gwella'r ddarpariaeth. Nodwyd posibilrwydd o sefydlu swyddfa wrth gefn i gefnogi'r ddarpariaeth, ac er nad yw'r prosiect ei hun yn gallu hawlio arbedion uniongyrchol, mae wedi cynorthwyo i greu arbedion mewn Gwasanaethu ee. Galw Gwynedd i arbed £23,000 trwy ddatblygu system fewnol.

Amlygwyd bod y pandemig wedi arwain at gyflwyno gwasanaethau ar-lein mewn meysydd lle nad oedd rhai yn bodoli yn flaenorol a hynny wedi arwain at gynnydd mewn ceisiadau am y gwasanaethau ar-lein yn gyffredinol. Cyfeiriwyd at ddatblygiadau i'r dyfodol oedd yn cynnwys sefydlu sgwrs fyw, rhannu manylion mynediad ysgolion, ffurflenni morwrol ynghyd a cheisiadau pellach i gyflwyno, e.e., rhestr aros Tai, cyfarpar ailgylchu, slotiau i ymgymerydd mewn amlogfa, ceisiadau rhieni maeth. Ystyriwyd bod hyn i'w groesawu ac yn gosod her arall o flaenoriaethu'r holl geisiadau mewn modd sydd yn dod â budd i'n cwsmeriaid a'r gwasanaethau dan sylw.

Ateggodd yr Aelod Cabinet fod y Cabinet yn llwyr gefnogol i'r prosiect ac yn ymfalchïo yn y gwaith da sydd yn cael ei wneud. Nododd bod y dewis i ddefnyddio technoleg i gysylltu 24awr yn fanteisiol a bod Gwynedd yn torri tir newydd drwy gynnig y gwasanaeth yn ddwyieithog.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod y gwasanaeth yn gwneud gwaith gwych – yn sicr y ffordd ymlaen
- Bod dyfalbarhad a brwdfrydedd y Tîm i'w longyfarch
- Bod angen adolygu'r camau 'tynnu sylw at dyllau yn y ffordd' – rhy gymhleth
- Bod angen sicrhau profiad da os am gyflwyno 'sgwrs ar lein' - rhaid sicrhau bod staff wrth gefn gyda gwybodaeth gyfredol ac ystyried yn ofalus pa Wasanaethau sydd yn addas i'w cynnig. Angen osgoi sefyllfa rwystredig ac amheronol i'r cwsmer.
- Angen sicrhau bod cod post Powys yn cael ei dderbyn yn 'Lle Dwi'n Byw' - rhai o'r codau post hyn yn berthnasol i drigolion Gwynedd

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ymateb i adborth gwael ac os oedd patrymau i'r sylwadau hynny, nodwyd pe byddai'r mater yn un technegol bydd Tîm y Wefan yn ymdrin â'r mater gyda chefnogaeth y Gwasanaeth TG. Os mai un o Wasanaethau eraill y Cyngor sydd yn derbyn adborth gwael, yna mae'r ymateb yn debygol o amrywio o Wasanaeth i Wasanaeth, ond bod pob ymgais yn cael ei wneud i sicrhau ymateb. O safbwynt patrwm i sylwadau, nodwyd bod y Tîm Prosiect yn edrych ar feddalwedd dadansoddi i ymgymryd â'r gwaith yma.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amserlen ymateb i sylwadau, nodwyd y byddai'r Tîm Prosiect yn gweithio gyda'r Gwasanaethau i gytuno ar amserlen gan fynnu bod cyfnod ymateb yn cael ei osod er mwyn sicrhau rheolaeth o'r sefyllfa

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chwblhau cais ar ran rhywun arall ac o ganlyniad yn gorfod cyflwyno manylion banc personol, tynnwyd sylw bod llinell bwrpasol i gynnwys cyfeiriad gwahanol, ond bod cais am fanylion banc yn parhau. Cytunwyd i edrych i mewn i hyn.

Mewn ymateb i bryder bod y gwasanaeth ar-lein yn peryglu swyddi yng Ngallw Gwynedd, nodwyd, er bod y gwasanaeth wedi arbed £23,000 i Galw Gwynedd, nid oedd wedi arwain at unrhyw ddiswyddiadau. Ateggwyd mai arbediad mewn amser gweinyddol oedd y fantais fwyaf drwy ryddhau amser i gyflawni gwaith arall megis cyfeirio adnodd i 'sgwrs'. Ateggwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda staff Galw Gwynedd a'u bod yn ymrwymedig i'r prosiect.

Mewn ymateb i awgrym y gellid cynnig y gwasanaeth i sectorau ehangach, mynegwyd bod y posibilrwydd yn ddymunol ond yn gynamserol - angen datblygu'r safon cyn rhannu ymhellach.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad

5. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2020 / 21

Cymerodd yr Aelod Cabinet Cyllid y cyfle i ddiolch i staff yr Adran Cyllid am eu hymroddiad i sicrhau bod Datganiad Cyfrifon (drafft) y Cyngor wedi eu cyflwyno i Archwilio Cymru sef yr archwilwyr allanol, cyn y dyddiad statudol (31 Mai 2021). Ategodd y Pennaeth Cyllid ei ddiolch i'r staff am gyflawni'r gwaith gan ymateb i amserlen statudol heriol newydd, ynghanol argyfwng Covid19. Diolchwyd hefyd i'r Gwasanaeth TG am alluogi datblygiadau gweithio o adre. Nododd ei fod eisoes wedi ardystio'r cyfrifon drafft ac mai ymarfer da fyddai rhannu'r cyfrifon gyda'r Aelodau er mwyn rhoi cyfle i holi / cyflwyno sylwadau. Bydd y cyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu cymeradwyo 14/10/21.

O ran y Prif Ddatganiadau a'r Nodiadau, eglurwyd bod y Datganiad wedi ei gwblhau ar ffurf safonol CIPFA. Ymddengys yn drwsgl a thechnegol gymhleth ac amlygwyd bod y ffigyrau pensiwn yn dueddol o ystumio'r ffigyrau. I ddeall y sefyllfa ychydig yn well cyfeiriwyd at y wybodaeth yn Nodyn 38. Nododd y Pennaeth Cyllid ei fod ef, ynghyd a Thrysoryddion eraill ar draws y DU, yn cynnal trafodaethau gyda CIPFA i geisio dwyn perswâd arnynt i ddiddymu'r ffigyrau pensiwn sydd yn arwain at gam argraff ar rai agweddau yn y Datganiad.

Ategodd yr Uwch Reolwr Cyllid bod chwe set o gyfrifon wedi eu cwblhau ond nad oedd modd iddynt gael eu harchwilio a'u cymeradwyo tan dymor yr Hydref, gan fod angen sicrhau bod hawliau'r cyhoedd yn weithredol. Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Naratif oedd yn rhoi gwybodaeth am y Cyfrifon ac am weledigaeth a blaenoriaethau Gwynedd, y Strategaeth Ariannol a'r mesuryddion perfformiad ariannol. Arweiniwyd yr Aelodau drwy'r adroddiad gan fanylu ar rai o'r elfennau:

- Datganiad Symudiad mewn Reserfau (tud 22 o'r rhaglen) sydd yn crynhoi sefyllfa ariannol y Cyngor am 2020/21 - tynnwyd sylw at y colofnau gwybodaeth ychwanegol:
 - colofn 1: balansau cyffredinol y Cyngor wedi cynyddu £1.8 miliwn yn ystod y flwyddyn, £7.5 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2020 i £9.4 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2021
 - colofn 2: yn cyfeirio at gynnydd o £20 miliwn yn ystod y flwyddyn yn y cronfeydd, £59 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2020 i £79 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2021
 - colofn 3 - balansau Ysgolion - cynnydd o £6.4 miliwn o £4.3 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2020 i £10.8 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2021.
 Amlygwyd mai'r prif resymau dros y cynnydd oedd derbyniad grantiau amrywiol sylweddol.
- Trefniadau newydd ar gyfer eleni, ar y cyd gyda Chynghorau eraill yn ymwneud â Covid (tudalen 94) gan gynnwys Rhaglen Profi, Orlhain a Diogelu

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cyfrifon (drafft) yn amodol ar Archwiliad gydag adroddiad gan yr Archwilwyr Allanol (Archwilio Cymru) ynghyd a chyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu cymeradwyo 14/10/21.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â grantiau yn cael eu derbyn at ddibenion pwrpasol ac o ganlyniad yn gogwyddo'r sefyllfa, nododd y Pennaeth Cyllid bod rhai o'r grantiau ar gyfer pwrpas penodol ond bod nifer yn rai sydd heb bwrpas penodol ac o ganlyniad wedi eu gosod yng Nghronfa Trawsffurfio'r Cyngor a Chronfa Adfer Covid. Bydd cyfle yn unol â'r drefn arferol i gyflwyno ceisiadau am yr arian.

PENDERFYNWYD

Derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol a'r archwiliad) ar gyfer 2020 / 21

6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2020 / 21

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2020/21, yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn 5/3/20. Nodwyd bod gweithgaredd benthycy'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, a derbyniwyd £422,000 o log ar fuddsoddiadau a oedd yn uwch na'r £400,000 yn y gyllideb. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fethiant i ad-dalu gan y sefydliadau roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw.

Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn un heriol gyda chyfraddau llog yn gostwng, cyfyngiadau ar ble i fuddsoddi arian ynghyd a symiau sylweddol yn cael eu prosesu gyda'r Cyngor yn gweinyddu dros £100 miliwn o grantiau Covid 19 i fusnesau. Er hynny, roedd y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau bod y buddsoddiadau yn ddiogel ac wedi cyrraedd y targed incwm buddsoddi.

Tynnwyd sylw at y fantolen ynghyd a manylder y gweithgareddau benthycy gan amlygu bod y benthyciadau wedi parhau o fewn y strategaeth o gadw'r costau benthycy yn isel. Ni wnaethpwyd unrhyw fenthyciadau tymor hir yn y flwyddyn ac ni wnaed llawer o ddefnydd o fenthyciadau tymor byr oherwydd bod lefelau'r arian wedi bod yn uchel o gymharu â diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf lle cymerwyd benthyciadau tymor byr oherwydd ansicrwydd sefyllfa Covid 19.

Adroddwyd, yng nghyd-destun buddsoddiadau, bod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi gyda Banciau, Cronfeydd Marchnad Arian, a Chronfeydd wedi'i pwlio, ond bod cynnydd mewn defnyddio Awdurdodau Lleol gan fod y cyfleoedd gyda'r banciau a'r sefydliadau tebyg yn gyfyngedig iawn, a chyfraddau marchnad arian yn isel iawn. Ategwyd bod y dychweliadau wedi bod yn isel iawn, ond bod y cronfeydd wedi'i pwlio wedi achub y sefyllfa gan eu bod wedi bownsio yn ôl ar ôl cwmp diwedd flwyddyn ariannol 2019/20. Amlygwyd bod gwerth y buddsoddiadau wedi codi £0.6 miliwn yn y flwyddyn, gyda chyfradd 5.13% wedi cyfrannu at yr incwm llog gan sicrhau nad oedd diffyg yn erbyn y gyllideb.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfriad a dangosyddion adroddwyd bod cydymffurfio llawn wedi digwydd ar wahân i'r datguddiad cyfraddau llog. Amlygwyd bod y datguddiad yma yna dangos effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog gan amlygu effaith difrifol y mae'r pandemig wedi ei gael ar enillion buddsoddiadau o gymharu ar hyn a ragwelwyd ddechrau Mawrth 2020 pan osodwyd lefel y cyfyngiad - cyn pandemig Covid 19. Ategwyd bod dychweliadau ar y cronfeydd wedi'i pwlio wedi adfer y gollyngiad llog.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Er balchder o dderbyn grantiau, Cyngor Gwynedd wedi gwneud y penderfyniad o ddefnyddio eu cyllid fel bod effeithiau covid 19 ar drigolion Cyngor yn lleihau
- Bod angen cywiro tabl Crynodeb Rheolaeth Trysorlys (tud 100 o'r rhaglen) i amlygu £'000 yn lle £m

Mewn ymateb i sylw yn yr adroddiad 'bod hyd buddsoddiad a nifer y sefydliadau sydd i adneuo arian gyda nhw wedi ei leihau yn seiliedig ar y cyngor a gafwyd gan Arlingclose', ac os mai dirywiad y gyfradd credyd oedd yn gyfrifol neu'r cyngor a dderbyniwyd, adroddwyd bod y penderfyniad i ddiogelu'r buddsoddiadau yn gyfuniad o'r ddwy elfen a bod angen cymryd agwedd gofalus. Mewn ymateb i gwestiwn ategol o ran lleihad sylweddol yn y sefydliadau, amlygwyd bod sefydliadau tramor wedi cwtogi ynghyd a gostyngiadau o 90 diwrnod i 35 gan fanciau. Pwysleisiwyd mai prif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi oedd ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychweliadau - trwy fuddsoddi

yn ddarbodus bydd sylw yn cael ei roi ar ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am gyfraddau uwch o ddychweliadau.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

7. TREFNIADAU GWRTH DWYLL, GWRTH LYGREDD A GWRTH LWGRWOBRWYO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg) yn diweddarau'r Pwyllgor ar drefniadau atal twyll ac atal llygredd y Cyngor ynghyd a chynnydd ar raglen Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrthlygredd a Gwrth Lwgrwobrwyo Cyngor Gwynedd 2019 - 2022 a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor 14 /02/2019. Nodwyd bod y Strategaeth yn cynnwys wyth o weithrediadau y dylid eu cyflwyno yn ystod y tair blynedd er mwyn cryfhau trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Ategwyd y byddai gwaith yn dechrau dros yr Haf ar lunio rhaglen waith ar gyfer 2022/25.

Amlygwyd nad oedd swyddogion y Cyngor yn ymchwilio i honiadau o dwyll yn ei erbyn ar hyn o bryd.

Adroddwyd nad oedd gweithdai penodol wedi eu cynnal i adnabod risgiau newydd, ond bod Rheolwr Archwilio Mewnol wedi cyfarfod gyda phob Pennaeth Adran i drafod agweddau o risg fyddai angen eu cynnwys yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2021/22.

Un elfen na ellid gweithredu arni oherwydd sefyllfa barhaus y pandemig oedd cynnal cyfweiliadau twyll yn erbyn y Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor, a fyddai'n arwain at gosb weinyddol neu erlyniad yn yr achosion mwyaf difrifol. Er ceisio cynllunio camau pellach nid yw'r sefyllfa eleni wedi caniatáu datblygiadau yn y maes yma.

Tynnwyd sylw at y Fenter Twyll Cenedlaethol (NFI) sydd yn cynnal ymarfer paru data sydd yn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod ac atal twyll a gordaliadau o'r pwrs cyhoeddus. Bydd y gwaith paru data yn cael ei wneud bob dwy flynedd gydag ymarferiad llawn yn digwydd yn fuan. Mae data eisoes wedi ei ddarparu i Archwilio Cymru er mwyn iddynt gyflawni'r gwaith ac mae canlyniadau'r gwaith hwnnw yn dechrau cael ei wirio gan Archwilio Mewnol (sydd wedi clustnodi 40 diwrnod ar gyfer cyflawni'r dasg yng nghynllun 2021/22). Bydd y Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar y gwaith ac unrhyw achosion sydd yn dod i'r amlwg wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Ategwyd bod y Fenter Twyll Cenedlaethol hefyd yn gymorth i adolygu'r taliadau grantiau a wnaed i Fusnesau Gwynedd yn ystod y cyfnodau clo. Bu 5 cynllun grant yn ystod 2020/21 a dosbarthwyd dros £106m o arian grant. Nodwyd bod arwyddion cynnar yn awgrymu nad oes ceisiadau twyllodrus wedi dod i'r amlwg trwy'r ymarferiad NFI a bod hyn yn cadarnhau bod trefniadau cadarn yn eu lle o fewn y Gwasanaeth Trethi oedd yn gweinyddu'r grantiau.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD

Derbyn y wybodaeth fel diweddariad ar y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn y maes gwrth-dwyll a gwrthlygredd

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 11.45

CADEIRYDD

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 27/5/21

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths, John Brynmor Hughes, Medwyn Hughes, Aled Wyn Jones, Berwyn P Jones, Huw W Jones, Dewi Roberts, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell a Gethin Glyn Williams

Sharon Warnes (Aelod Lleyg)

Swyddogion:

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)
Alan Hughes ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)
Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu)

1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2021 – 22

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2021 - 22

2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2021 – 22

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Medwyn Hughes yn Is Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2021 -22

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Peredur Jenkins. Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd a gollodd ei wraig yn ddiweddar.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021 fel rhai cywir.

7. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (Cymru) 2021

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i raglen waith drafft mewn ymateb i Ddeddfwriaeth sy'n cyflwyno newidiadau a grymoedd llywodraethiant Llywodraeth Leol yng Nghymru. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cyngor Llawn (Mawrth 4ydd 2021) wedi penderfynu mai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fyddai'n cadw trosolwg o'r gwaith sy'n ymateb i ddarpariaethau a gofynion y Ddeddf a'r rhaglen waith arfaethedig sydd yn ei lle i gyfarch y camau mewn modd amserol a phriodol.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor o'r rhaglen waith bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn tynnu sylw at y risgiau posib ynghyd a chyfres o adroddiadau pellach i'r Cyngor, Y Cabinet, Y Pwyllgor Safonau a Phwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ynglŷn â darpariaethau'r Ddeddf a'r elfennau perthnasol. Ategwyd bod elfennau o'r gwaith eisoes ar y gweill a bod gweithgor o swyddogion wedi eu hadnabod i weithredu'r gwaith.

Yng nghyd destun y Pwyllgor Archwilio, nodwyd bod sawl newid i gyfrifoldebau'r Pwyllgor, gyda chydabyddiaeth y bydd ambell un yn bell gyraeddol. Rhoddwyd trosolwg cryno ar yr agweddau fydd angen eu blaenoriaethu:

- cymryd trosolwg o swyddogaethau monitro perfformiad penodol y Cyngor - bydd canllawiau yn cael ei gosod allan gan y Ddeddfwriaeth gyda threfn ffurfiol i'r broses.
- enw'r Pwyllgor – Deddf yn nodi'r angen i sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- cadw trosolwg ar drefn gwynion y Cyngor gan sicrhau system gwynion effeithiol
- adolygu aelodaeth y Pwyllgor Archwilio erbyn Mai 2022 - bydd yr aelodaeth yn gwedd newid y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd ac amlygwyd yr angen i gynnal trafodaeth fanwl ynglŷn â goblygiadau llywodraethiant y Pwyllgor.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â swyddogaeth y Pwyllgor dros drefniadau cwynion ac os byddai hyn yn gwneud y broses yn haws i unigolion gyflwyno cwynion, nodwyd mai sicrhau bod y drefn a pherfformiad y drefn honno yn gweithio fydd cyfrifoldeb y Pwyllgor. Mewn ymateb, mynegwyd bod y Pwyllgor Safonau eisoes yn edrych ar y broses gwynion ac y byddai cael dau bwyllgor yn rhoi trosolwg yn dyblygu'r gwaith. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro bod y ddau bwyllgor yn ddwy gyfundrefn wahanol - monitro cwynion o'r côd ymddygiad yw cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau tra byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gyfrifol am drosolwg o gwynion am wasanaethau a threfniadau corfforaethol y Cyngor.

Mewn ymateb i sylw y byddai penodi Aelodau llewg yn anodd o ystyried agweddau megis cefndir, balans gwleidyddol, agwedd di-duedd, taliadau, dylanwad ac addasrwydd nododd y Swyddog Monitro bod canllawiau yn cael eu paratoi i roi arweiniad ar y trefniant a derbyniwyd yr awgrym bod angen cynllunio ymlaen yn ofalus ar gyfer hyn. Awgrymwyd bydd trefn debyg i'r hyn sydd gan y Pwyllgor Safonau yn cael ei mabwysiadu, lle sefydlir Panel Cyfweld i fod yn gyfrifol am y penodiadau. O safbwynt taliadau, eglurwyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol eisoes yn amlygu mai tal fesul diwrnod fydd i bob aelod llewg.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chaniatáu rhannu swyddi a sut bydd hyn yn gweithio, nododd y Swyddog Monitro bod angen cwblhau darn o waith i ystyried os yw hyn yn realistig. Pwysleisiodd yr angen am drefn briodol a thryloyw.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod cydweithio gan Brif Gynghorau yn codi amheuaeth o golli pwerau
- Bod cyflwyno Cydbwyllgorau Corfforedig (CBC) yn ymosodiad ar ddemocratiaeth
- Bod CBC yn tanseilio'r grymoedd lleol

- A fydd hawl peidio sefydlu / ymuno a CBC?

Mewn ymateb i bryderon am y CBC nodwyd bod 3 cydbwyllgor eisoes wedi ei sefydlu yn y Gogledd a bod rhaid cydymffurfio ac adeiladu fframwaith o gwmpas gofynion y Ddeddfwriaeth..

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo'r Rhaglen Waith

Cais am ddiweddariad i gyfarfod y Pwyllgor Hydref 2021

8. SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Eglurwyd, ers sefydlu Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd yn 1999, bod rôl y Pwyllgor wedi esblygu i adlewyrchu'r gofynion statudol ar awdurdodau lleol yn ogystal â newidiadau yn nhrefniadau gweinyddol mewnol y Cyngor. Fel mater o drefn, bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried a mabwysiadu Trefniadau Gweithredu yn ei gyfarfod cyntaf o gyngor newydd ar ôl etholiad – mabwysiadwyd y fersiwn gyfredol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Mehefin 2017.

Yn achlysurol bydd newidiadau mewn trefniadau mewnol neu ddeddfwriaeth yn golygu bod angen addasu'r Trefniadau Gweithredu. Yn dilyn cyfnod o adolygu trefniadau llywodraethu materion ariannol y Gronfa Bensiwn, cyflwynwyd addasiadau i'r Trefniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer ymdrin â chyfrifon 2020/21 Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r Pwyllgor eu hystyried. Amlygwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi bod yn derbyn a chymeradwyo cyfrifon Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd, fel rhan o'i rôl fel y "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu". Wedi ystyried y rheoliadau diweddaraf, ymddengys mai'r Pwyllgor Pensiynau yw'r corff priodol i dderbyn a chymeradwyo datganiadau o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Tynnwyd sylw at y rheoliadau perthnasol ynghyd a'r trefniadau gweithredu drafft newydd sydd yn parhau i fod yn gyson a gofynion Mesur Llywodraeth Leol a'r Canllawiau Statudol. Tynnwyd sylw hefyd at y cymalau sydd wedi eu haddasu gan bwysleisio mai fersiwn dros dro yw'r trefniant ar gyfer 2021 / 22 gan nad yw'r holl addasiadau sydd yn cael eu cyflwyno i weithgareddau'r Pwyllgor yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wedi dod i rym eto. Ategwyd bod y trefniant arfaethedig wedi ei drafod gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau. Nodwyd bod trefniadau a phenderfyniadau sydd yn ymwneud a phensiynau yn cael eu rheoli gan y Pwyllgor Pensiynau sydd yn eu tro yn cael eu craffu yn fanwl gan y Bwrdd Pensiwn. O ganlyniad, ystyriwyd bod yr addasiad yn un synhwyrol

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod aelodau o'r Bwrdd Pensiwn a'r Pwyllgor Pensiynau yn gefnogol i'r trefniant
- Bod y trefniant yn un i'w groesawu – yn cynnig trefn lan a chllir gyda llai o ddyblygu gwaith
- Bod y drefn yn ymddangos yn daclus
- Bod Rheolwyr proffesiynol hefyd yn cadw llygad ar y Gronfa felly digon o gefnogaeth ar gael

PENDERFYNWYD

Derbyn y wybodaeth

Cymeradwyo addasiadau i'r Trefniadau Gweithredu

9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddarau'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2021 hyd 31 Mawrth 2021. Amlygwyd bod 4 o archwiliadau'r cynllun wedi eu cwblhau ynghyd ag archwiliad grant ôl-16.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod angen cynnal asesiad lles i weithwyr a chynghorwr sydd yn gweithio o adre
- Bod angen rhoi dewis i staff wrth i ganllawiau covid lacio yng nghyd-destun gweithio o adre
- Bod angen amserlen ar gyfer dychwelyd i'r swyddfeydd
- Bod angen cynnal asesiadau lleoliad gwaith yn y cartref
- Edmygu ymroddiad ac addaswyd staff wrth weithio o adref

Mewn ymateb i'r sylwadau nodwyd bod asesiadau offer gwaith wedi eu cwblhau a bod Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar brosiect asesu addaswyd swyddi. Ategwyd nad oedd pwysau i dychwelyd i'r swyddfeydd ac os bydd modd gwneud swydd o gartref yn effeithiol, ni fyddai gorfodaeth i newid.

PENDERFYNWYD

Derbyn y wybodaeth

Cefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2020 – 21

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn mynegi barn Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheolaethol gyffredinol o fewn yr Awdurdod yn ystod 2020/21 gan ddarparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Nodwyd na all sicrwydd fyth fod yn llwyr ac y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

Adroddwyd bod dyfodiad pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar yr awdurdod yn ei gyfanrwydd ac ar waith Archwilio Mewnol. Mynegwyd nad oedd modd i Archwilio Mewnol gynnal gwaith yn chwarter cyntaf y flwyddyn, ac ar gais y Pennaeth Cyllid, cafodd rhai swyddogion o'r gwasanaeth eu hadleoli i gynorthwyo a chefnogi'r Cyngor drwy wirio a phrosesu Grantiau Llywodraeth Cymru i Fusnesau a weinyddwyd gan y Gwasanaeth Refeniw. Treuliyd cyfanswm o 146 diwrnod ar y gwaith hwn. Yn ogystal, bu i swyddogion Archwilio Mewnol hefyd gynorthwyo'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, sef gwasanaeth a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru gyda 120 diwrnod wedi eu treulio ar y gwaith yma.

Cyflwynwyd rhaglen waith ddiwygiedig o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2020/2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2020. Roedd y cynllun archwilio blynyddol yn llawer mwy hyblyg na'r arfer o ganlyniad i effaith y pandemig ar y sefydliad. Adnabuwyd blaenoriaethau archwilio newydd mewn ymateb i risgiau newydd a newidiadau yn sgil effaith Covid-19. Bu i archwiliadau o'r cynllun addasedig gael eu cwblhau o fewn cyfnod heriol gyda ffocws yr archwiliadau ar drefniadau yn sgil y pandemig ac archwiliadau statudol megis grantiau. Cynhaliwyd nifer isel o archwiliadau yn ystod 2020/2021 o gymahru a'r blynyddoedd blaenorol a hynny oherwydd amgylchiadau digynsail o anghyffredin. Ystyriwyd hynny yn eithriad eleni a defnyddiwyd tystiolaeth a ddarparwyd gan reoleiddwyr allanol i gefnogi'r farn am y flwyddyn.

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor a archwiliwyd.

- Bod holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg. Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 30 Tachwedd 2020 i ddiweddar am ddatblygiadau i'r trefniadau rheoli risg, y camau gweithredu nesaf, ac ystyried os oedd yr ymateb yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn Llythyr yr Archwiliwr
- Bod 23 risg llywodraethu wedi cael eu hadnabod yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu hasesu'n barhaus gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.
- Ble darganfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, a sylw'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.
- Bod yr Awdurdod wedi derbyn nifer o adroddiadau gan reoleiddwyr yn ystod 2020/2021:

Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2020/2021, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/2021 yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Roedd 23 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2020/2021. Cafodd 19 o aseiniadau eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2021, sy'n cynrychioli 82.61% o'r cynllun. O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2020/2021 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 100% ohonynt lefel sicrwydd "Digonol" neu "Uchel.

Ers 1 Ebrill 2021, roedd 7 aelod llawn amser i'r Tîm Archwilio Mewnol ac un Uwch Archwiliwr Dros Dro. Nodwyd bod arian wedi ei neilltuo i ariannu'r adnodd ychwanegol i'r Gwasanaeth weithredu archwiliadau pan fydd cyfyngiadau'r argyfwng yn llacio, fel yr adroddwyd gan y Pennaeth Cyllid i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 11 Chwefror 2021.

Nodwyd gwerthfawrogiad o waith y Rheolwr Archwilio.

PENDERFYNWYD

Derbyn y wybodaeth

11. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2020 – 21

Cyflwynwyd y datganiad gan Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg. Eglurodd bod y datganiad, er nad yn rhan o'r cyfrifon, yn ddogfen statudol ac angen ei chyhoeddi gyda'r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon Archwilio (Cymru) a Chod ymarfer CIPFA mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol yn ei le. Adroddwyd mai'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sydd yn arwyddo'r datganiad er bod angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Rhoddyd ychydig o gefndir i'r datganiad gan nodi bod dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i gyflwyno datganiad blynyddol ac er yn wahanol o ran fformat neu ddull mae eu cynnwys yn debyg iawn. Yng Ngwynedd, y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, o dan arweiniad y Prif Weithredwr sydd yn adolygu'r gofrestr risg. Bydd y grŵp yn trafod risgiau mewn 23 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hynny. Caiff hyn ei wneud mewn ymateb i fframwaith CIPFA sydd yn hadnabod egwyddorion craidd ar gyfer llywodraethu da.

Amlygwyd bod risg newydd wedi cael ei ychwanegu yn ystod 2021/21, sef 'Trefniadau a gweithredu annigonol gan Wasanaethau'r Cyngor i reoli rigiau iechyd a diogelwch yn effeithiol'. Ategyd bod y risg yma yn wreiddiol wedi ei gynnwys o fewn y risg mwy cyffredinol 'Trefniadau Rheoli Risg', ond ystyriwyd bod Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn cyflwyno risgiau unigryw ac o ganlyniad y byddai'n briodol i'r maes gael sylw penodol o fewn y gofrestr risg llywodraethu.

Adroddwyd bod y Grŵp wedi dod i gasgliad bod 0 maes gyda risgiau uchel iawn, 2 faes risgiau uchel, 12 maes risgiau canolig a 9 maes risgiau isel. Nodwyd mai'r meysydd risg uchel oedd 'Diwylliant' a'r risg newydd 'Iechyd, Diogelwch a Llesiant'.

Tynnwyd sylw hefyd at newid mewn sgôr risg 'gwendidau wrth reoli arian cyhoeddus' sydd yn golygu nad yw cyllid y Cyngor yn cael ei ddefnyddio at ei flaenoriaethau. Addaswyd y sgôr oherwydd, er bod trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor yn parhau'n gryf, mae'r sgôr tebygolwydd wedi newid i 3 gan fod cynlluniau arbedion bellach am fod y anoddach i'w gwireddu.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod angen mwy o wybodaeth am y tîm newydd a sefydlwyd ar gyfer cryfhau'r gefnogaeth i drefniadau Craffu
- Angen ystyried risg i asedau eiddo'r Cyngor - hyn yn debygol o gynyddu o ganlyniad i staff y Cyngor yn gweithio o adre a swyddfeydd yn wag

Mewn ymateb i gais am fwy o wybodaeth am drefniadau rheoli CCTV amlygwyd bod cynllun gwybodaeth newydd wedi ei sefydlu gan Cefnogaeth Gorfforaethol mewn ymateb i adnabod risg o warchod / diogelu data sydd yn ymddangos ar CCTV. Nodwyd bod bwriad i sicrhau bod y wybodaeth sydd yn cael ei ddal ar CCTV yn cael ei ystyried fel 'data' ac o ganlyniad yn cael ei reoli drwy ganllawiau rheoli data.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad

Cymeradwyo'r datganiad

Argymhell bod Arweinydd y Cyngor a Prif Weithredwr y Cyngor yn ei arwyddo

12. CYFRIFON TERFYNOL 2020/2021 – ALLDRO REFENIW

Amlygodd yr Aelod Cabinet Cyllid bod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Cabinet 18 Mai 2021 a bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r holl argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol.

Gosodwyd y cyd-destun ac ymhelaethwyd ar gynnwys yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid. Cyfeiriwyd at grynodedd o'r sefyllfa fesul adran oedd yn amlygu'r symiau i'w cario ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd a'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol. Amlygwyd,

- Bod effaith ariannol Covid19 yn sylweddol i'r Cyngor. Gyda dros £20 miliwn wedi ei hawlio o'r gronfa caledi a ffyrlo erbyn diwedd y flwyddyn, oedd yn gyfuniad o gostau ychwanegol o £11.6 miliwn, colledion incwm o £7.3 miliwn a £1.5 miliwn ffyrlo.
- O ganlyniad i dderbyn nifer o grantiau sylweddol eraill cysylltiedig â Covid-19 yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, amlygwyd bod sefyllfa ariannol 2020/21 wedi ei drawsnewid erbyn diwedd y flwyddyn, gyda'r grantiau yn cynnwys grantiau i gyllidebau ysgolion, ar gyfer trawsnewid digidol, diffyg gwireddu arbedion ac ôl groniad Treth Cyngor.

- Bod 5 adran ar ddiwedd y flwyddyn yn gorwario cyn dyrannu grantiau digolledu am Covid19 gan Lywodraeth Cymru, gan adael dim ond un adran yn gorwario yn derfynol, sef Adran Plant a Theuluoedd.
- Pwysau sylweddol yn wynebu'r Adran Plant a Theuluoedd, ond lleihad yn y gorwariant i £1.3 miliwn yn dilyn dileu £688k o arbedion nad oedd modd eu gwireddu a derbyniad grant covid.
- Bod gwelliant sylweddol yn sefyllfa'r Adran Oedolion - gwerth £1 miliwn o arbedion nad oedd modd eu cyflawni wedi eu dileu a'u llithro yn ogystal â derbyniad grantiau cyffredinol ym misoedd olaf y flwyddyn.
- Bod cynnydd yn sefyllfa ariannol Priffyrdd a Bwrdeistrefol oedd yn gyfuniad o gwtogi ar wariant, derbyniadau grant covid a grantiau cyffredinol a dileu arbedion. Y maes gwastraff, yn parhau i fod yn bryder gyda'r adran wedi wynebu costau ychwanegol sylweddol yn ymwneud â chydymffurfio gyda chanllawiau covid 19. Nodwyd hefyd golledion incwm yn y maes gwastraff masnachol, oedd yn ei gyfanrwydd werth £2.4 miliwn am flwyddyn.
- Bod nifer o resymau tanwariant un-tro ar nifer o benawdau Corfforaethol
- Bod balansau'r ysgolion wedi cynyddu o £4.3 miliwn yn 2019/20 i £10.7 miliwn yn 2020/21 yn sgil effaith Covid19 a derbyniad grantiau amrywiol.
- Bod adolygiad digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor wrth gau'r cyfrifon, lle llwyddwyd i gynaeafu £170 mil o adnoddau.

Cyfeiriwyd at benderfyniad y Cabinet i,

- nodi sefyllfa'r adrannau ar ddiwedd 2020/21 a chymeradwyo'r symiau i'w cario ymlaen
- cymeradwyo'r holl argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol

Adroddwyd bod y datganiadau ariannol statudol 2020/21 wrthi'n cael eu cwblhau gyda'r bwriad o'u cyflwyno i'r Archwilwyr cyn y dyddiad statudol o 31 Mai 2021. Ategwyd y byddai'r cyfrifon yn cael eu harchwilio dros yr haf gan Archwilio Cymru ac nid gan gwmni Deloitte fel y gwelwyd yn y gorffennol.

Ateggodd y Pennaeth Cyllid bod grantiau wedi rhoi hwb ariannol sylweddol i'r sefyllfa sydd bellach yn cyfleu sefyllfa iach a chadarn. Er gwaethaf y gost, sicrhawyd diogelwch trigolion Gwynedd yn ystod y pandemig drwy ariannu gwasanaethau a sefyllfaoedd heb sicrwydd grantiau. Ategwyd bod yr arian yn cael ei 'barcio' yn y gronfa trawsffurfio am y tro ac y byddai ceisiadau am yr arian i'w gwneud yn y drefn arferol.

Diolchwyd i'r staff am eu gwaith trylwyr a'u hyblygrwydd dros y cyfnod heriol

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad

Nodi'r risgiau perthnasol

Cefnogi penderfyniad y Cabinet (18 Mai 2021)

13. RHAGLEN GYFALAF 2020 – 21 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (sefyllfa 31ain Mawrth 2021)

Amlygodd y Uwch Reolwr Cyllid mai prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (sefyllfa 31 Mawrth 2021), a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £114.6 miliwn am y 3 blynedd 2020/21 - 2022/23 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £11.0 miliwn ers yr adolygiad diwethaf.

Prif gasgliadau adolygiad oedd bod y Cyngor wedi llwyddo i wario £27.7m yn 2020/21 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £18.2m (66%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.

Adroddwyd bod effaith argyfwng Covid19 a'r cyfnod clo ar y rhaglen gyfalaf yn amlwg ac yn ychwanegol i'r £14.1m a adroddwyd arno yn yr adolygiadau blaenorol, roedd £19.3m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2020/21 i 2021/22, gyda'r prif gynlluniau yn cynnwys:

- £4.5 miliwn Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21
- £3.3 miliwn Adnewyddu Cerbydau.
- Grant hwyr o £2.2 miliwn ar Gynnal a Chadw Ysgolion a gyrhaeddodd ym mis Mawrth 2021, gyda'r hawl penodol gan Lywodraeth Cymru i ddisodli ariannu cyfredol a'i lithro i'r flwyddyn ganlynol.
- £1.7 miliwn Cynllun Cei Aberdyfi.

Yn ogystal, llwyddodd y Cyngor ddenu grantiau pellach ers yr adolygiad diwethaf oedd yn cynnwys;

- £7.2 miliwn - Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a Llwybrau Diogel - caniatâd llithro'r mwyaf i 21/22.
- £2.2 miliwn - Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 20/21 sy'n caniatáu disodli ariannu cyfredol i'w wario yn 21/22.
- £0.6 miliwn - Grant Tai Arloesol - Cartrefi Clyd (Podiau) i gynorthwyo gyda lleihau digartrefedd.
- £0.5 miliwn - Grant Cronfa Gofal Canolraddol – addasiadau sefydliadau oedolion a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill yn y maes gofal.

Penderfynodd y Cabinet (18 Mai 2021) i dderbyn yr holl argymhellion oedd yn cynnwys:

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2021) o'r rhaglen gyfalaf.
- Nodi'r gwariant o £27,667,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21, fydd yn cael ei ddefnyddio yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2020/21.
- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynwyd sef:
 - Cynnydd yn y defnydd o
 - £3 mil o fenthyca
 - £10.561 miliwn yn y grantiau a chyfraniadau
 - £234 mil o gyfraniadau referniw
 - £200 mil o gronfeydd adnewyddu ac eraill

PENDERFYNWYD

**Derbyn yr adroddiad
Nodi'r risgiau perthnasol
Cefnogi penderfyniad y Cabinet (18 Mai 2021)**

14. CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD AM Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31ain MAWRTH 2021

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid. Eglurwyd, yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Abermaw, Aberdyfi, Pwllheli a Porthmadog. Gyda throsiant yr harbyrau yn is na £2.5m, ystyriwyd i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint ac felly mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol.

Cyfeiriwyd at y cyfrif incwm a gwariant, ac amlygwyd £5,208 o orwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Adroddwyd, bod ardrawiad covid-19 a'r cyfnod clo cysylltiedig wedi effeithio lefelau incwm yr Harbyrau sydd yn llawer llai na'r targed incwm eleni. Er hynny, adroddwyd bod tanwariant ar staffio, cynnal a chadw ayyb wedi lleddfu rhywfaint ar y sefyllfa.

Tynnwyd sylw at ffurflen safonol yr archwilwyr allanol ynghyd a'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol, sydd yn sicrhau system rheolaeth fewnol gadarn. Amlygwyd bod y cyfrifon eisoes wedi bod yn destun archwiliad Mewnol a bellach wedi eu cyflwyno i'r archwilwyr allanol sef Archwilwyr Allanol Archwilio Cymru. Ategwyd mai dim ond os bydd angen gweithredu newidiadau yn dilyn archwiliad y bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Hydref.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad

Cymeradwyo'r Cyfrifon:

- **Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2020 / 21**
- **Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru**

Argymhell bod y Cadeirydd yn arwyddo'r ffurflen yn electroneg

15. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER Y FLWYDDYN EBRILL 2021 – 31 MAWRTH 2022

Cyflwynwyd cynllun o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2021/22 gan y Rheolwr Archwilio. Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'r cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes ynghyd ag ystyried effeithiau sylweddol a chyflym pandemig COVID-19 ar y Cyngor. Er mwyn sicrhau bod rheolaethau allweddol y Cyngor a'r materion cywir yn cael eu hadolygu, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol, Cynllun Cyngor Gwynedd ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sydd ar waith. O ganlyniad, paratowyd cynllun cychwynnol gyda hyblygrwydd fyddai'n rhoi sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg a newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor a hefyd sicrhau iechyd a diogelwch swyddogion Archwilio Mewnol a chleientiaid. Trafodwyd y cynllun cychwynnol gyda phob Pennaeth Gwasanaeth lle bu cyfle i fireinio'r cynllun ymhellach, cyn paratoi'r Cynllun terfynol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Nodwyd bod Cynllun Archwilio 2021/2022 yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall twyll neu lygredigaeth ddigwydd - manteisio ar y Fenter Twyll Cenedlaethol a chynnal gwaith Atal Twyll Rhagweithiol
- parhau i roi sylw i grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad gan Archwilio Mewnol.
- I sicrhau hyblygrwydd, bydd Archwilio Mewnol yn defnyddio methodoleg AGILE ble bo hynny'n bosibl. Prif amcanion cymhwyso egwyddorion AGILE yw:
 - Gwella ansawdd archwilio
 - Cylchoedd archwilio byr
 - Cynnydd mewn rhyngweithio â chleientiaid
 - Darparu mewnwelediadau

(Nodwyd bod Agile yn darparu modd hyblyg a dynamig i Gynllunio Archwilio Mewnol o ganlyniad i fonitro risg yn barhaus).

Rhagwelwyd y byddai oddeutu 715 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2021/22. Dadansoddwyd yr adnoddau staffio sydd ar gael, gan ystyried

cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau “di-gynnyrch” megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd.

Manylwyd ar fwriad a rheswm rhai o'r archwiliadau fel bod yr aelodau yn cael rhagflas o gynnwys y cynllun archwilio

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnwys diogelwch seiber (a adnabuwyd fel maes blaenoriaeth mewn gweithdy diweddar) ar y rhaglen waith, nodwyd bod archwiliad i ddiogelwch systemau TG wedi ei adnabod. Er hynny, amlygwyd bod cwmni allanol yn paratoi adroddiadau trylwyr proffesiynol ar ddiogelwch seiber a bod yr adroddiadau hynny yn cael eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Archwilio. Ategwyd bod rhain yn drefniadau cadarn ac i raddau ni fuasai'r Gwasanaeth Archwilio yn gallu ategu at yr hyn mae'r cwmni allanol yn ei wneud. Adroddwyd bod eitem 'Gwydnwch Systemau TG - Diogelwch Seiber' wedi ei gynnwys fel eitem i'w graffu yng nghyfarfod 15 Gorffennaf o'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â mesurau diogelu rhyddid a'r bwriad o archwilio trefniadau newydd sydd yn disodli DoLS ac os byddai'r trefniadau newydd hyn yn well i'r Cyngor ynteu i'r unigolion, nodwyd bod hwn yn archwiliad ar gais Pennaeth Oedolion , lechyd a Llesiant sydd wedi argymhell bod y Gwasaneth Archwilio yn edrych ar y drefn newydd i sicrhau trefniadau cadarn o ganlyniad i broblemau yn y gorffennol.

Mewn ymateb i sylw fod effaith covid 19 yn bellgyrhaeddol ac os oes gan yr Adran Addysg y capasiti i fynd ar afael ar effeithiau, nodwyd nad oedd ystyriaeth wedi ei roi i'r mater ond nodwyd bwriad i drafod ymhellach gyda'r Pennaeth Addysg. Pwysleisiwyd bod cyfraniad seicolegwyr ysgolion yn hanfodol i asesu'r effaith.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau i staff o weithio o adre nodwyd bod modd i staff hawlio lwfans gan yr HMRC (cyfrifoldeb yr unigolyn fyddai gwneud hyn - y wybodaeth wedi ei gylchredeg). Nodwyd hefyd bod modd gwneud cais am daliad uwch ond byddai angen cyflwyno biliau fel tystiolaeth.

PENDERFYNWYD

**Derbyn yr adroddiad
Cymeradwyo'r Cynllun**

16. ARCHWILIO CYMRU – CYNLLUN ARCHWILIO 2021 CYNGOR GWYNEDD

Croesawyd Alan Hughes ac Yvonne Thomas i'r cyfarfod. Cyflwynwyd cynllun Archwilio Cymru ar gyfer 2021 yn nodi'r gwaith y maent yn fwriadau eu gwneud yn ystod y flwyddyn yn unol â'r cyfrifoldeb statudol sydd ganddynt fel archwilwyr allanol. Cyfeiriwyd at yr angen i archwilio datganiadau ariannol a'r risgiau sydd ynghlwm (sydd yn risgiau sydd yn ymddangos i bob Cyngor mwyn neu lai). Cyfeiriwyd at gynnwys y rhaglen archwilio perfformiad gan gynnig braslun o'r gwaith sydd i'w gyflawni ar amserlen bwriadedig.

Diolchwyd am yr adroddiad a mynegwyd parodrwyd i gydweithio.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad

17. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR AM 2021 – 22

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cynorthwyol (Refeniw a Risg) yn rhoi amlinelliad o raglen waith y pwyllgor am y flwyddyn hyd at Chwefror, 2022. Amlygwyd bod y blaen raglen wedi ei llunio o gwmpas eitemau sefydlog ynghyd ag ambell eitem craffu wedi ei gynnwys. Ategwyd bod y rhaglen yn rhaglen fyw a bod posib i'r amserlen newid.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 12.35yp

CADEIRYDD

Eitem 5

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD Y CYFARFOD	15 Gorffennaf 2021
TEITL YR EITEM	Adroddiadau Archwilio Cymru
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 1 Archwilio Cymru
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.
AWDUR	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

1. CEFNDIR

- 1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- 1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith hyn i'r dyfodol bydd Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu ac mae copi o'r ddogfen hon wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.
- 1.3. Bydd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.
- 1.4. Yn y cyfamser mae copi o 'Adolygiad Cynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru' a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru yn ddiweddar ynghyd ag 'Ymateb y Rheolwyr' wedi eu cynnwys fel **Atodiadau 2 a 3** ar gyfer eich ystyriaeth.

Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd

Diweddariad Chwarterol: 30 Mehefin 2021

Gwaith Archwilio Ariannol

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2020-21 y Cyngor a'i Gydbwyllgorau	Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021.	Mis Mehefin 2021 hyd at fis Hydref 2021	Derbyniwyd y datganiadau ariannol ar 28 Mai 2021 ac mae'r gwaith maes archwilio yn parhau.
Archwiliad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd		Mis Medi 2021 hyd at fis Tachwedd 2021	Derbyniwyd y Datganiadau Ariannol ar 16 Mehefin 2021.

Gwaith Archwilio Perfformiad

Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21	Cwmpas	Amserlen	Statws
Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn	Prosiect sy'n gyffredin i gynghorau gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a adolygodd sut y mae partneriaid yn cydweithio i gomisiynu gofal cartref preswyl a nyrsio yn strategol.	Medi 2021	Cyhoeddir adroddiad lleol drafft ym mis Gorffennaf 2021

Cynaliadwyedd Ariannol	Prosiect sy'n gyffredin i bob cyngor lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yn sgil yr heriau presennol a'r heriau a ragwelir yn y dyfodol gan adeiladu ar waith a wnaed yn ystod 2019-20.	Awst 2021	Cyhoeddwyd adroddiad lleol drafft Cyhoeddir Adroddiad Cryno Cenedlaethol ym mis Awst 2021
Ffordd Gwynedd	Adolygiad lefel uchel o weithredu Ffordd Gwynedd gan ystyried cysyniadau, diwylliant a rhwystrau.	Mis Hydref 2020 hyd at fis Ionawr 2021	Llythyr wedi'i anfon at y Prif Weithredwr

Gwaith archwilio perfformiad 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD)	Byddwn yn ceisio integreiddio'r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau LICD o gamau i gyflawni amcanion llesiant â'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn.	Amherthnasol	Amherthnasol
Archwiliad o adrodd ar welliannau	Archwiliad o gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.	Gorffennaf 2021	Yn amodol ar gyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol y cyngor
Sicrwydd ac Asesu Risg	Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le y gallai fod angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol o ran risgiau i'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yng Nghyngor Gwynedd mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:	Mis Ebrill 2021 hyd at fis Mawrth 2022	Parhaus

	<ul style="list-style-type: none"> • y sefyllfa ariannol • trefniadau hunanasesu • cynllunio adferiad • goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) • cynlluniau lleihau carbon 		
Camu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy	Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.	Wedi'i gynllunio ar gyfer Hydref 2021 ymlaen – i'w gadarnhau ar ôl cwmpasu.	Cwmpasu prosiectau
Adolygiad o Reoli Perfformiad	Adolygu'r ffordd y mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn y Cyngor yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau wedi ei harwain gan y galw.	Mis Gorffennaf hyd at fis Medi 2021	Gwaith maes hyd at fis Awst / Medi

Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi'u cynllunio / ar y gweill

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd
Adfywio Canol Trefi	Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn mynd i'r afael ag adfywio canol trefi	Cyhoeddi ym mis Medi 2020	Drafftio	Amherthnasol

Taliadau Uniongyrchol	Adolygiad o sut y mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn hybu'r defnydd o daliadau Uniongyrchol	Cyhoeddi Hydref 2021	Gwaith maes wedi'i gwblhau; mae arolwg derbynwyr a darparwyr ar y gweill ar hyn o bryd	Na – mae'r gwaith yn cael ei wneud drwy'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol a chyfres o gyfweiliadau dilynol
Gwasanaethau Brys	Adolygiad o ba mor dda y mae'r gwasanaethau brys (golau glas) yn cydweithio	Cyhoeddi Hydref 2021	Gwaith maes tan ddiwedd mis Gorffennaf	Na
Gwaith dilynol ar Bobl yn Cysgu Allan	Adolygiad o sut yr ymatebodd awdurdodau lleol i anghenion pobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig yn dilyn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2020	I'w gadarnhau	Prosiect wedi'i sefydlu	Na – mae'r gwaith yn cael ei wneud drwy'r Fforwm Digartrefedd a Chefnogi Pobl
Tlodi	Deall sut y mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi.	I'w gadarnhau	Prosiect wedi'i sefydlu	I'w gadarnhau
Mentrau Cymdeithasol	Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau	I'w gadarnhau	Prosiect wedi'i sefydlu	I'w gadarnhau

Cydnherthedd Cymunedol	Adolygiad o sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau	I'w gadarnhau	Prosiect wedi'i sefydlu	I'w gadarnhau
------------------------	---	---------------	-------------------------	---------------

Estyn

Gwaith arfaethedig Estyn 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol	Gweithiodd Estyn yn agos gyda Chyfarwyddwyr Addysg i adolygu eu canllawiau arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol i adlewyrchu profiadau'r pandemig. Bydd y canllawiau diwygiedig (a gyhoeddir ar 1 Gorffennaf) yn cael eu treialu ar yr arolygiad cyntaf a gofynnir am adborth ynghylch a oes angen rhagor o fireinio.	Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol i ailddechrau o ddiwedd tymor yr Hydref	Amherthnasol
Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm	Cymorth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ddiwygio'r cwricwlwm.	Casglu tystiolaeth ym mis Medi/ Hydref – cyhoeddi ddechrau mis Chwefror	Amherthnasol

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gwaith arfaethedig AGC 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Sicrwydd	Bydd AGC yn cwblhau ei waith ar Wiriadau Sicrwydd gan gynnwys cyhoeddi adroddiad trosolwg cenedlaethol.	Gorffennaf – Medi 2021	Ar y gweill
Adolygiad cenedlaethol	Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd.	i'w gadarnhau	Ar y gweill – Drafftio adroddiad
Gwaith dilynol	Bydd AGC yn gwneud gwaith dilynol ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn y Gwiriadau Sicrwydd neu drwy weithgareddau arolygu sy'n seiliedig ar risg gydag awdurdodau lleol unigol lle bo angen.	i'w gadarnhau	Heb ddechrau eto
Arolygiad	Bydd gweithgareddau arolygu sy'n seiliedig ar risg yn parhau lle bo angen.	i'w gadarnhau	Nid oes unrhyw arolygiadau wedi'u trefnu ar hyn o bryd

Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ers 1 Ebrill 2021

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a doleri'r adroddiad
Offeryn Data Cyllid GIG Cymru 2020-21	Mehefin 2021
Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru	Mehefin 2021
Trefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – gwaith dilynol	Mai 2021
Trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	Mai 2021
Yn ôl eich doethineb - Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol	Ebrill 2021
Caffael a Chyflenwi cyfarpar diogelu personol ar gyfer Pandemig COVID-19	Ebrill 2021

Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill gan Archwilio Cymru sydd i'w cyhoeddi yn ystod 2021-22 (a gwaith arall sy'n mynd rhagddo/a gynlluniwyd)¹

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwylidig
Offeryn data amseroedd aros y GIG	Mis Gorffennaf 2021

¹ Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff a archwiliwyd i ymgysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd fel y gallwn ymateb i ddatblygiadau ym maes polisi Llywodraeth Cymru a meysydd o ddiddordeb posibl i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd yn dilyn etholiadau'r Senedd.

Cefnogi lles staff y GIG	Mis Awst 2021
Gweinyddu cyllid myfyrwyr	Mis Awst 2021
Comisiynu cartrefi gofal	Mis Awst 2021
Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus	Mis Medi 2021
Rhaglen Cartrefi Cynnes	Mis Medi 2021
Sylwadau ar gyfrifon Llywodraeth Cymru	Hydref 2021
Gweithlu Llywodraeth Cymru	Hydref 2021
Gwasanaethau orthopedig	Hydref 2021
Gofal heb ei drefnu	Hydref 2021
Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol	Hydref 2021
Amcanion llesiant a bennir gan Lywodraeth Cymru	Hydref 2021
Diwygio'r cwricwlwm	Gaeaf 2021
Ymateb ac adferiad COVID / Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru	I'w gadarnhau
Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb	I'w gadarnhau
Newid yn yr hinsawdd – adolygiad sylfaenol	I'w gadarnhau

Sylwadau cryno ar asesiad strwythuredig y GIG 2021	I'w gadarnhau
Tai fforddiadwy	I'w gadarnhau
Seilwaith band eang	I'w gadarnhau
Rheoli perygl llifogydd	I'w gadarnhau

Digwyddiadau a chyhoeddiadau Cyfnewid Arfer Da sydd ar ddod

Teitl	Dyddiad cyhoeddi/digwyddiad disgwylidig
Adfywio Canol Trefi	2 Medi 2021
Mae'r Tîm Cyfnewid Arfer Da wrthi'n cwblhau'r rhaglen ddigwyddiadau ar gyfer gweddill 2021/2022. Pan fydd wedi'i chwblhau, bydd ein cysylltiadau allweddol ar draws awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu a bydd manylion y digwyddiadau hynny a sut i gofrestru ar gael ar ein gwefan. Cadwch lygad am ddiweddariad trwy e-bost dros yr wythnosau nesaf	Amherthnasol

Adolygiad Cynnydd Bargaen Twf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaid Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2317A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth drin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.

Cynnwys

Mae gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig ac fe'i cefnogir gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu, gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain.

Adroddiad cryno

Crynodeb	4
Cynigion ar gyfer gwella	5

Mae gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig ac fe'i cefnogir gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu, gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain	7
--	---

Mae partneriaid wedi cytuno ar uchelgeisiau ar gyfer economi Gogledd Cymru ac wedi sefydlu fframwaith llywodraethu clir, er nad yw pob elfen yn weithredol	7
--	---

Mae'r BUEGC wedi sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio ag adnoddau da i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei uchelgeisiau; lle mae'n dod o hyd i fylchau mewn sgiliau, gwybodaeth neu allu, mae'n ddyfeisgar wrth wneud iawn am ddiffygion	10
--	----

Mae llwyddiant y Fargen Twf yn dibynnu ar lawer o ffactorau allanol a allai newid uchelgeisiau a gynlluniwyd; mae BUEGC yn addasu i oresgyn yr heriau a'r risgiau hyn sy'n dod i'r amlwg	13
--	----

Adroddiad cryno

Crynodeb

- 1 Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) i gefnogi datblygiad economi'r rhanbarth. Mae wedi rhoi cryn bwyslais ar gyflawni Bargen Twf Gogledd Cymru yn llwyddiannus. Mae partneriaid yn ystyried y Fargen Twf fel cyfle i drawsnewid y rhanbarth a helpu i ail-gydbwyo economi Gogledd Cymru.
- 2 Nod Bargen Twf Gogledd Cymru yw:
 - sicrhau twfeconomaidd cynhwysol;
 - cynhyrchu £2.0 i £2.4 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros ychwanegol net erbyn 2036;
 - creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi ychwanegol net erbyn 2036; a
 - cyflawni buddsoddiad cyfan o £1.15 biliwn yn Economi Gogledd Cymru drwy'r Fargen Twf. £240 miliwn o gyllid y Fargen Twf, £184 miliwn o arian cyhoeddus ehangach, £722 miliwn o fuddsoddiad yn y sector preifat.
- 3 Mae gan BUEGC gyllid sylweddol i'w reoli wrth iddo gyflawni'r Fargen Twf. Mae ganddo raglenni gwaith uchelgeisiol, mae yna gymhlethdodau o ran gweithio mewn partneriaeth ac mae effaith pandemig COVID-19 ar wasanaethau cyhoeddus a'r economi leol yn sylweddol. Ceisiodd yr adolygiad hwn asesu'r cynnydd a wnaed gan BUEGC ar ei daith i gefnogi datblygu economi'r rhanbarth a chyflawni Bargen Twf Gogledd Cymru.
- 4 Gwnaethom ganolbwyntio ein hadolygiad ar sut roedd BUEGC yn gwneud cynnydd wrth gyflawni'r rhaglen ynni carbon isel ac wrth wneud hynny archwiliwyd:
 - trefniadau llywodraethu;
 - cefnogaeth a ddarperir gan swyddfa rheoli'r rhaglen;
 - effaith COVID-19 ar gyflawni wedi'i gynllunio; a
 - dysgu ar y cyd ar gyfer yr uchelgais yn gyffredinol.

Ceisiodd yr adolygiad ateb y cwestiwn: Wrth gyflawni ei nodau cyffredinol, a yw BUEGC yn barod ac yn gallu addasu i gwrdd â'r amgylchiadau economaidd sy'n newid?
- 5 Canfuom fod gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig a'i fod yn cael ei gefnogi gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu, gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
 - mae partneriaid wedi cytuno ar uchelgeisiau ar gyfer economi Gogledd Cymru ac wedi sefydlu fframwaith llywodraethu clir, er nad yw pob elfen yn weithredol;
 - mae BUEGC wedi sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio ag adnoddau da i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei uchelgeisiau; lle mae'n dod o hyd i fylchau mewn sgiliau, gwybodaeth neu allu, mae'n ddyfeisgar wrth wneud iawn am ddiffygion; ac

- mae llwyddiant y Fargen Twf yn dibynnu ar lawer o ffactorau allanol a allai newid uchelgeisiau a gynlluniwyd: mae BUEGC yn addasu i oresgyn yr heriau a'r risgiau hyn sy'n dod i'r amlwg.

Cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 1 crynodeb: Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gallai'r cynghorau trwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wella eu gallu i gyflawni eu nodau cyffredinol.

Cynigion ar gyfer gwella

- | | |
|----|--|
| P1 | Dylai cynghorau Gogledd Cymru, trwy BUEGC, ddatblygu strategaeth rheoli risg a datblygu cofrestr risg sy'n cynnwys ystyried risgiau newydd i brosiectau a gyflwynir gan amgylchiadau allanol fel Brexit, COVID-19 a phwysau eraill ar yr economi leol. |
| P2 | Dylai cynghorau Gogledd Cymru, trwy BUEGC, ehangu eu cysylltiadau â'r gymuned fusnes i gynyddu'r cyfleoedd i gefnogi cyflawni eu hamcanion. |
| P3 | Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu'r angen i gynnal tryloywder a gwerthoedd y sector cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau wrth weithredu mewn amgylchedd busnes sy'n gystadleuol a masnachol iawn. |
| P4 | Sefydlu craffu ffurfiol, amserol ar BUEGC sy'n sicrhau tryloywder cyhoeddus ac yn rhoi gwybodaeth i gynghorau noddi am yr hyn sy'n digwydd. |
| P5 | Datblygu cytundebau sy'n nodi'n glir y gefnogaeth a ddarperir i'r Swyddfa Rheoli Portffolio (SRhP) gan Gyngor Gwynedd megis llywodraethu, adnoddau dynol a chyllid. |

Cynigion ar gyfer gwella

- P6 Wrth adolygu dichonoldeb prosiectau unigol, diffinio sut mae pob un yn cyfrannu at gyflawni saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Adroddiad manwl

Mae gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig ac fe'i cefnogir gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu, gall ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain

Mae partneriaid wedi cytuno ar uchelgeisiau ar gyfer economi Gogledd Cymru ac wedi sefydlu fframwaith llywodraethu clir er nad yw pob elfen yn weithredol

Nodau strategol lefel uchel ac ymrwymadau cyllido

- 6 Yn 2016 mabwysiadodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC)¹ **Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru**. Mabwysiadwyd y Weledigaeth honno wedi hynny gan bob un o chwe chyngor Gogledd Cymru. Yn seiliedig ar Strategaeth Y Weledigaeth Twf, paratowyd a chytunwyd ar gynnig Bargen Twf gan yr holl bartneriaid, gan weithio gyda Llywodraethau'r DU a Chymru a'r sector preifat ym mis Hydref 2018. Ym mis Tachwedd 2019, cytunodd BUEGC a Llywodraethau Cymru a'r DU ar Benawdau'r Telerau², a chwblhawyd Cytundeb y Fargen Derfynol ym mis Rhagfyr 2020.
- 7 Nod y Fargen Twf yw adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru, gan adeiladu ar ei chryfderau i hybu cynhyrchiant wrth ymdrin â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol. Dull BUEGC yw hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Fargen Twf yn seiliedig ar gyflawni 14 o brosiectau trawsnewidiol ar draws pum rhaglen. Diffiniwyd y rhaglenni fel naill ai rhaglenni twf uchel neu raglenni galluogi.
- 8 Y Weledigaeth yw datblygu 'rhanbarth hyderus, gydlynol gyda thwf economaidd cynaliadwy, gan fanteisio ar lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a chysylltiad BUEGC ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon. Sefydlwyd y Weledigaeth Twf ar dair egwyddor allweddol ar gyfer Gogledd Cymru:

¹ Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) yn Gyd-bwyllgor sy'n cynnwys y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam y ddau goleg (Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai), dwy brifysgol (Bangor a Wrecsam) a'r sector preifat.

² Mae penawdau'r telerau yn tystio i fwriad difrifol ac mae ganddynt rym moesol, ond nid ydynt yn gorfodi'r partion yn gyfreithiol i ddod â'r fargen i ben ar y telerau hynny neu hyd yn oed o gwbl.

- Clyfar - gyda ffocws ar arloesi a sectorau economaidd gwerth uchel i hyrwyddo perfformiad economaidd;
- Gwydn - gyda ffocws ar gadw pobl ifanc, cynyddu lefelau cyflogaeth a sgiliau i sicrhau twf cynhwysol; a
- Cysylltiedig - gyda ffocws ar wella trafndiaeth a seilwaith digidol i wella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac oddi mewn iddo.

- 9 Mae BUEGC wedi ceisio sicrhau bod ei waith yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ran y pum ffordd o weithio, mae ei raglen yn un tymor hir o ran ei natur, mae yna weithio mewn partneriaeth sy'n dangos bod cydweithredu a phrosiectau yn glir ynghylch eu heffaith arfaethedig a'r hyn y maen nhw'n ceisio'i atal. Wrth i gynllunio prosiectau barhau i ddatblygu mae mwy o le i integreiddio ar draws y rhanbarth ac i gymryd rhan yn eu ffurfio a'u cyflawni.
- 10 Yng Nghyllideb yr Hydref 2018, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys ar y pryd £120 miliwn mewn cyllid cyfalaf ar gyfer Bargaen Twf Gogledd Cymru. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyfateb cyfraniad ariannol Llywodraeth y DU tuag at Fargaen Twf Gogledd Cymru, gan sicrhau ymrwymiad am £240 miliwn fel cyfraniad grant mewn cyllid cyfalaf gan lywodraethau.
- 11 Mae'r Fargaen Twf yn ceisio sicrhau cyfanswm buddsoddiad o hyd at £1.1 biliwn yn economi Gogledd Cymru gan gynnwys y £240 miliwn o'r Fargaen Twf, i greu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi ychwanegol net a chynhyrchu rhwng £2 biliwn a £2.4 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros³.
- 12 Mae partneriaid yn cydnabod bod y weledigaeth wedi'i nodi'n wreiddiol yn 2016 a bydd yr economi leol a demograffeg wedi newid, yn enwedig oherwydd effaith pandemig COVID-19. O ganlyniad, maent yn bwriadu adnewyddu'r weledigaeth i adlewyrchu'r sefyllfa economaidd bresennol.
- 13 Wrth gytuno i weithio gyda'i gilydd yng Ngogledd Cymru i gyflawni gweledigaeth a rennir, mae partneriaid wedi rhoi unrhyw wahaniaethau gwleidyddol posibl o'r neilltu, er mwyn sicrhau eu bod yn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'r rhanbarth cyfan. Mae hwn yn brosiect tymor hir ac mae partneriaid wedi cytuno ar egwyddorion y gobeithiant fydd yn arwain at weld cyflawni'r Fargaen Twf. Bydd yn parhau i fod mewn grym ac effaith lawn nes bydd y partiön i gyd wedi tynnu'n ôl, neu pan fydd yr holl bartiön yn cytuno i derfynu'r cytundeb. Mae ei 'gyfnod cloi i mewn' fel y'i gelwir yn gytundeb na chaiff unrhyw barti weithredu'r darpariaethau tynnu'n ôl am chwe blynedd gyntaf y cytundeb llywodraethu. Mae'n bosibl tynnu'n ôl ar ôl y cyfnod hwn ar ôl rhoi rhybudd, ond bydd yn ofynnol i unrhyw bartner sy'n dymuno tynnu'n ôl indemnio'r partneriaid sy'n weddill yn erbyn effaith ariannol y tynnu'n ôl hwnnw ac yn benodol unrhyw ymrwymiaidau cytundebol presennol a pharhaus.

³Gwerth ychwanegol gros yw'r mesur o werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal, diwydiant neu sector o economi.

Trefniadau llywodraethu

- 14 Mae BUEGC wedi'i hen sefydlu ac yn gweithredu fel y Grŵp Noddi a'r Corff Gwneud Penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ystyried a chymeradwyo achosion busnes prosiectau yn y portffolio ac mae ganddo gyfrifoldeb am gyflawni'r hyn a ddirprwyir i'r byrddau rhaglenni a phrosiectau perthnasol. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn fisol fel arfer ac mae'n cynnwys arweinwyr cynghorau a phrif weithredwyr, ymgynghorwyr o'r colegau, prifysgolion a'r Bwrdd Cyflenwi Busnes, swyddogion o Gyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya a'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Dim ond y chwe arweinydd cyngor sy'n cynrychioli eu cynghorau priodol sydd â hawliau pleidleisio.
- 15 Mae BUEGC wedi canolbwyntio ar gyflawni'r Fargen Twf ac yn benodol sicrhau cyllid y llywodraeth fel blaenoriaeth. Ar ôl sicrhau'r cyllid hwn, bydd y Bwrdd yn canolbwyntio mwy ar gyflawni'r rhaglenni a phrosiectau a'i nodau a'i weledigaeth ehangach ynghylch bod yn graff, yn gydnerth ac yn gysylltiedig.
- 16 Mae BUEGC wedi sefydlu Grŵp Cymorth Gweithredol (Bwrdd Portffolio) sef y corff cynghori i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Mae'n gweithredu fel y Bwrdd Portffolio ar gyfer y Fargen Twf ac mae'n cynnwys uwch swyddogion o bob un o sefydliadau partner y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Mae'r grŵp hwn yn chwarae rhan ganolog wrth gynghori BUEGC wrth iddo ddatblygu a chyflawni prosiectau'r Fargen Twf.

Diwylliannau a threfniadau gweithio

- 17 Mae cyflwyno'r Fargen Twf yn dwyn ynghyd ddiwylliannau a threfniadau llywodraethu gwahanol iawn. Mae'r cynghorau'n cael eu llywodraethu gan eu cyfansoddiadau a'u pwerau dirprwyedig ac maent yn atebol i'r etholwyr. Mae partneriaid addysg uwch yn gweithredu o fewn eu cyfansoddiadau, siarteri a statudau, ac mae partneriaid busnes yn atebol i fyrdau a chyfranddalwyr. Wrth i'r broses o gyflawni'r Fargen Twf fynd yn ei blaen, bydd angen i bartneriaid sicrhau cymysgedd dda o wneud penderfyniadau yn gyflym tra eu bod ar yr un pryd yn cadw at strwythurau llywodraethu sydd wedi'u cynllunio i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Ar hyn o bryd nid yw'n eglur sut y bydd BUEGC a gefnogir gan y Swyddfa Rheoli Portffolio yn bodloni gofynion y gwahanol ddiwylliannau hyn.
- 18 Rhaid i swyddogion a chynghorwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth sicrhau bod eu sefydliadau noddi yn cael eu hysbysu'n llawn am benderfyniadau allweddol a, lle bo angen, y gofynnir am gymeradwyaeth. Wrth i'r Fargen Twf nesu at gael ei chymeradwyo, buom yn arsylwi cynghorau wrth iddynt drafod a chymeradwyo'r cynnig terfynol. Mynegodd arweinwyr y materion pwysig yn ymwneud â'r cynnig yn glir a buont yn siarad â brwdfrydedd ynghylch y rhagolygon ar gyfer y rhanbarth.
- 19 Yn ystod camau cynharach y gwaith, rydym yn deall bod Arweinwyr wedi briffio Aelodau'r Cabinet neu'r Weithrediaeth a chredwn fod grwpiau'r gwrthbleidiau'n cael eu hysbysu trwy sesiynau briffio'r cynghorwyr. Er ei bod yn gadarnhaol bod pob cynghorydd yn wybodus am yr hyn sy'n digwydd, bod gan aelodau'r cyhoedd

fynediad at adroddiadau trwy wefan Cyngor Gwynedd, a bod pwyllgorau craffu wedi ystyried y cais a'r fargen, bydd yn dal i fod angen ffurfioli trefniadau craffu parhaus.

20 Bydd cyflwyno'r Fargen Twf yn cael ei gefnogi gan bum Bwrdd Rhaglen; un ar gyfer pob un o'r rhaglenni y cytunwyd arnynt fel a ganlyn:

- arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel;
- bwyd-amaeth a thwristiaeth;
- tir ac eiddo;
- digidol; ac
- ynni carbon isel.

Mae gan aelod o'r Grŵp Cymorth Gweithredol rôl Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac mae'n arwain y Byrddau Rhaglenni perthnasol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd Byrddau'r Rhaglenni ar wahanol gamau yn eu datblygiad gyda'r Bwrdd Rhaglen Ynni Carbon Isel wedi datblygu fwyaf.

Gwnaethom arsylwi cyfarfod Ionawr 2021 o gyfarfod Bwrdd y Rhaglen Ynni Carbon Isel a ddangosodd ffocws clir ar gyflawni a dull datblygol o reoli'r prosiectau o fewn y rhaglen, megis datblygu buddion, gwireddu ac achosion busnes.

21 Nod BUEGC yw y bydd pob prosiect yn y Fargen Twf yn cael ei reoli trwy 14 bwrdd prosiect. Bydd gan bob un Uwch Berchennog Cyfrifol, rheolwr prosiect a noddwr prosiect wedi'u dyrannu iddo. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni'r achosion busnes y cytunwyd arnynt, a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu allbynnau penodol. Bydd prosiectau'n adrodd drwedd i'r Bwrdd Rhaglen perthnasol. Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd cylch gorchwyl ar gyfer Byrddau Prosiect wedi'i gytuno.

22 Er bod y rhan fwyaf o brosiectau yng nghamau cynnar eu datblygiad, gwnaethom geisio nodi a oedd cyd-ddibyniaethau rhwng y prosiectau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Rydym yn deall bod prosiectau wedi'u sefydlu yn gyntaf ac yna wedi eu grwpio gyda'i gilydd i ffurfio'r rhaglenni. Nid yw'r rhain yn rhaglenni gyda phrosiectau rhyngddibynnol; yn hytrach maent yn gasgliad o brosiectau unigol a fydd, os byddant yn llwyddiannus, yn helpu i gyflawni canlyniadau'r rhaglen.

Mae BUEGC wedi sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio ag adnoddau da i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei uchelgeisiau; lle mae'n dod o hyd i fylchau mewn sgiliau, gwybodaeth neu allu, mae'n ddyfeisgar wrth wneud iawn am ddiffygion

Y Swyddfa Rheoli Portffolio

23 I ddechrau, mae rhwydweithiau proffesiynol wedi cyflawni eu swyddogaethau fel cynllunwyr ac uwch swyddogion o holl gynghorau Gogledd Cymru a phartneriaid eraill wrth sefydlu'r Fargen Twf. Roedd y mewnbwn proffesiynol hwn yn llywio'r

gwaith o ddatblygu prosiectau'r Fargen Twf, y weledigaeth ranbarthol a'r strwythurau llywodraethu sydd bellach wedi'u sefydlu. Mae'r cymorth proffesiynol hwn yn parhau.

- 24 Sefydlodd BUEGC Swyddfa Rheoli Portffolio i symud ymlaen gyda datblygu a chyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Fargen Twf. Yn ystod 2020-21, aeth y broses recriwtio i swyddi allweddol fel rheolwyr rhaglenni a phrosiectau a swyddi cymorth ymlaen, ac ym mis Ionawr 2021 parhaodd y gwaith recriwtio.
- 25 Mae gan y Swyddfa Rheoli Portffolio gyllideb o £1,673,690 yn 2020-21 wedi'i hariannu gan gynghorau, prifysgolion, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, grant Bil Trafnidiaeth Cymru a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Yn 2020-21, mae BUEGC yn rhagweld tanwariant o £78,000.
- 26 Mae Cyngor Gwynedd yn 'lletya' y Swyddfa Rheoli Portffolio trwy ddarparu llywodraethu, cyflogi staff Swyddfa Rheoli Portffolio, adnoddau dynol a chyngor / gwasanaethau ariannol. Mae hyn yn galluogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio i ddefnyddio gwasanaethau a chefnogaeth broffesiynol heb orfod talu costau seilwaith ychwanegol diangen. Mae'r trefniant hwn wedi datblygu dros amser ac nid yw wedi'i ategu eto gan gytundeb lefel gwasanaeth a fyddai'n ffurfioli'r berthynas rhwng y Swyddfa Rheoli Portffolio a Chyngor Gwynedd.
- 27 Lle mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi bod angen capasiti ychwanegol ynghylch cymorth arbenigol neu ychwanegol, mae wedi comisiynu hyn gan y sector preifat. Er enghraifft, yn ddiweddar comisiynodd waith yn ymwneud â thwristiaeth, asesiad effaith a dadansoddiad sefyllfaol.
- 28 Lle mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi nodi bylchau yn ei sgiliau a'i gwybodaeth ei hun, mae wedi comisiynu hyfforddiant penodol. Er enghraifft, comisiynwyd staff Llywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant ar ddrafftio ac adolygu cynlluniau busnes.
- 29 Mae gan y Swyddfa Rheoli Portffolio berthnasoedd datblygedig gyda staff o gynghorau Gogledd Cymru sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau adfywio craidd a datblygu economaidd ac mae wedi ymgysylltu'n dda â nhw trwy Grŵp Adferiad Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n gysylltiedig â COVID-19. Bu'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cadeirio ac yn gweinyddu'r cyfarfodydd hyn, gan ddod â'r adnoddau rhanbarthol gwerthfawr hyn at ei gilydd. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio eisoes wedi dod yn ffynhonnell wybodaeth ranbarthol werthfawr ynghylch adfywio a datblygu economaidd oherwydd ei sgiliau, ei gwybodaeth a'i gwybodaeth leol ond bydd angen iddi fod yn glir dros amser ynghylch y gwahaniaeth rhwng ei rôl wrth gyflawni'r Fargen Twf a gweledigaeth a swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd cynghorau unigol.
- 30 Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cydnabod bod ganddi waith pellach i'w wneud. Mae'n bwriadu:
 - datblygu gwefan BUEGC;
 - datblygu strategaeth cronfeydd wrth gefn; a
 - nodi ei chynllun ariannol tymor canolog.

Dysgu oddi wrth eraill ac ymgysylltu â nhw

- 31 Mae Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam yn aelodau o Gynghrair Merswy Dyfrdwy (MDA). Nod Cynghrair Merswy Dyfrdwy yw gwella proffil a hunaniaeth rhanbarth y ffin rhwng Gogledd Cymru / y Gogledd Orllewin. Mae ymgysylltu â Chynghrair Merswy Dyfrdwy yn rhoi persbectif allanol i BUEGC ac yn ei helpu i edrych o amgylch y ffiniau am gyfleoedd ehangach wrth gyflawni ei weledigaeth economaidd.
- 32 Mae'r Strategaeth Caffael Ddrafft yn nodi ymrwymiad i fod yn arloesol yn ei ddull o sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf posibl gan weithio gyda phartneriaid, yn enwedig y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwytnwch cymunedol. Nid yw'r ymgysylltiad â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cychwyn eto.
- 33 Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn siarad yn rheolaidd â phobl mewn rolau tebyg sy'n cefnogi mentrau a ariennir gan y llywodraeth ledled Cymru fel Bargen Dinas Caerdydd a Bargen Twf Canolbarth Cymru. Mae hyn yn darparu ffynhonnell wybodaeth werthfawr ac yn ei gwneud yn bosibl i rannu dysgu gwerthfawr.
- 34 Mae BUEGC a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn parhau i gadw cysylltiad rheolaidd â Llywodraethau'r DU a Chymru ynghylch cyflwyno'r Fargen Twf, sy'n darparu her ac arweiniad rheolaidd.

Cynlluniau i gyflawni'r Fargen Twf

- 35 Yn y pum rhaglen, mae yna 14 o brosiectau unigol fel a ganlyn:

Arloesi mewn rhaglen weithgynhyrchu gwerth uchel

- Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol
- Canolfan Menter, Peirianeg ac Opteg

Rhaglen bwyd-amaeth a thwristiaeth

- Rhwydwaith TALENT Twristiaeth
- Hwb Economi Wledig Glynllifon
- Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi

Rhaglen tir ac eiddo

- Porth Caerdybi
- Tir ac Eiddo Rhanbarthol
 - Porth Wrecsam;
 - Parc Bryn Cegin; hen Ysbyty Gogledd Cymru;
 - Safleoedd Strategol Allweddol:
 - Bodelwyddan; a
 - Warren Hall

Rhaglen ddigidol

- Prosiect Cysylltedd Digidol

- Campysau Cysylltiedig;
- Coridorau Cysylltiedig;
- Canrannau'r ychydig sydd ar ôl; a
- Ffeibr llawn mewn safleoedd penodol
- Prosiect Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP)

Rhaglen ynni carbon isel

- Morlais
- Gorsaf Bŵer Trawsfynydd
- Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel
- Ynni Lleol Clyfar
- Datgarboneiddio Trafnidiaeth

- 36 Mae rhai o'r prosiectau yn y cam cysyniadau gyda thybiaethau ynghylch lefel cyllid y sector preifat y bydd ei angen i gefnogi'r gwaith o'u cyflawni. Gyda llofnodi cytundeb y Fargen Twf, mae BUEGC yn bwriadu ailedrych ar ei brosiect gwreiddiol a'r rhagdybiaethau cynllunio i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ymarferol cyn bwrw ymlaen gyda'r gwaith o'u cyflawni.
- 37 Ar ôl egluro'r rhagdybiaethau ar gyfer pob rhaglen a'r prosiectau sy'n eu cefnogi, bydd angen i BUEGC gymeradwyo achosion busnes ar gyfer pob un. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar achosion busnes rhai prosiectau tra bod eraill yn parhau i fod yn y cyfnod datblygu cynnar. Ar ôl eu cymeradwyo, bydd achosion busnes yn paratoi'r ffordd ar gyfer caffael ac adolygiadau Porth pellach.
- 38 Wrth i brosiectau ddatblygu mae cyfle i ddiffinio sut mae pob un yn cyfrannu at gyflawni'r saith Nod Llesiant. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi cwblhau asesiadau effaith o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf yr Iaith Gymraeg yn erbyn ei bortffolio ac mae'n bwriadu cynnal asesiadau tebyg ar gyfer rhaglenni a phrosiectau.

Mae llwyddiant y Fargen Twf yn dibynnu ar lawer o ffactorau allanol a allai newid uchelgeisiau a gynlluniwyd; mae BUEGC yn addasu i oresgyn yr heriau a'r risgiau hyn sy'n dod i'r amlwg

- 39 Mae'r dirwedd economaidd leol yng Nghymru wedi newid ers i BUEGC gymeradwyo rhaglenni a phrosiectau gwreiddiol y Fargen Twf. Mae effaith ffactorau allanol fel COVID-19 ar fusnes a chyflogaeth wedi bod yn ddigynsail a gellir asesu'r effaith ar yr economi leol yn well yn dilyn eglurder ynghylch cytundeb Brexit.
- 40 Mae rhaglen y Fargen Twf yn destun cyfres o adolygiadau Porth annibynnol Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru ar adegau penodol. Bydd rhyddhau cyllid y llywodraeth yn dibynnu ar i BUEGC gael sgôr gadarnhaol trwy gydol yr adolygiadau hyn. Ym mis Medi 2020, cynhaliwyd adolygiad o'r fath ac adroddodd y

tîm adolygu fod cyflawni'n llwyddiannus yn ymddangos yn ymarferol, ond roedd materion sylweddol yn gofyn am sylw rheolwyr a gyfrannodd at sgôr Ambr cyffredinol. Roedd yr adolygiad yn gadarnhaol o ran yr ethos rhanbarthol, y Swyddfa Rheoli Portffolio a chyfranogiad rhanddeiliaid. Ond nododd hefyd rai pryderon ynghylch rheoli buddion, rheoli risg, monitro, amserlenni a dichonoldeb rhai prosiectau. Mae risgiau'n sylweddol a byddem yn tynnu sylw at yr angen am strategaeth rheoli risg fel blaenoriaeth allweddol i BUEGC gyda Brexit, COVID-19 a dibyniaeth ar gyllid y sector preifat yn faterion a allai effeithio ar hyfywedd rhai prosiectau.

- 41 Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r adolygiad ac wedi hysbysu Llywodraeth Cymru a BUEGC pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd neu eisoes yn eu cymryd i ymdrin ag argymhellion yr adolygiad.
- 42 Mae cefnogaeth ac ymgysylltiad parhaus â'r sector busnes yn hanfodol i gyflawni'r Fargen Twf a'r weledigaeth ranbarthol. Roedd Cyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy yn aelod sylfaenol o BUEGC ac mae wedi gweithio mewn cydweithrediad agos â phartneriaid a rhanddeiliaid rhanbarthol i lunio a dylanwadu ar y Fargen Twf. Ym mis Awst 2020, oherwydd heriau a achoswyd gan COVID-19, tynnodd y Cyngor Busnes ei aelodaeth o'r BUEGC yn ôl ond mae'n parhau i fod yn rhanddeiliad allweddol ac mae'n bwriadu bod yn bartner hanfodol, er yn fwy pell i ffwrdd, wrth symud ymlaen. Dros oes y Fargen Twf a chyflawni'r weledigaeth ranbarthol, bydd angen i bartneriaid, yn y sector cyhoeddus a phreifat, addasu eu hymglymiad â'r rhaglenni a'r prosiectau wrth i ffactorau allanol effeithio ar eu blaenoriaethau.
- 43 Er bod gan BUEGC lawer o gysylltiadau busnes sydd wedi'u hen sefydlu, mae'n bwysig ei fod yn ehangu'r rhwydwaith hwn. Mae'r Cyngor Busnes yn dod â phrofiad, gwybodaeth a chyfleoedd mawr eu hangen i lywio'r Fargen Twf ond mae'n anochel y bydd rhai bylchau gyda busnesau nad ydynt yn ymwybodol ar hyn o bryd o'r cyfleoedd posibl a roddir gan y Fargen Twf a sut i gyflawni'r weledigaeth y gallent gyfrannu ati.
- 44 Yn yr un modd â phawb arall, mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar BUEGC. Effeithiwyd ar economïau lleol ynghyd â ffyrdd o weithio. Mae BUEGC a'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi parhau i fod yn greadigol trwy ddefnyddio technoleg i gydymffurfio â chyfyngiadau cenedlaethol ond yn parhau i weithredu gyda synnwyr o 'fusnes fel arfer'. O'r herwydd, mae wedi cwrdd â therfynau amser pwysig ac wedi parhau i ddatblygu prosiectau lle roedd hynny'n bosibl.



Archwilio Cymru
24 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Ymateb y rheolwyr

Teitl yr adroddiad: Adolygiad o Gynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB)

Dyddiad cwblhau: Mawrth 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2317A2021-22

Tud. 47 Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
P1	Rheoli risg <ul style="list-style-type: none"> Dylai cynghorau'r Gogledd, drwy NWEAB, ddatblygu strategaeth rheoli risg a datblygu cofrestr risg sy'n cynnwys ystyried risgiau newydd i brosiectau a gyflwynir gan amgylchiadau allanol fel Brexit, COVID-19 a 	Caiff risgiau eu hasesu, eu cofnodi a'u lliniaru.	Ydy	<p>Mae Cofrestr Risg Portffolio wedi'i llunio a'i gweithredu bellach. Mae hyn yn dangos y risgiau cyffredinol i gyflawni portffolio'r Fargen Dwf. Adroddir ar y Gofrestr Risg Portffolio i NWEAB bob chwarter.</p> <p>Yn ogystal, caiff cofrestrau risg rhaglenni eu datblygu a'u gweithredu ar gyfer y pum rhaglen ac wrth i fyrddau prosiect gael eu sefydlu bydd</p>	Mae Cofrestr Risg Portffolio ar waith ers mis Hydref 2020.	Hedd Vaughan-Evans

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	phwysau eraill ar yr economi leol			yr un fformat ar gyfer rheoli risg yn cael ei weithredu.		
P2	Ymgysylltu â'r gymuned fusnes <ul style="list-style-type: none"> Dylai cynghorau'r Gogledd, drwy NWEAB, ehangu eu cysylltiadau â'r gymuned fusnes er mwyn cynyddu cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu hamcanion. 	Manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd drwy ymgysylltu â mwy o fusnesau	Ydy	<p>Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Rheoli Prosiect yn gweithredu strategaeth gyfathrebu ehangach, wedi'i hategu gan ddylunio a lansio porth ar-lein newydd, gan weithio ar y cyd ag asiantaeth greadigol ddigidol Tinint.</p> <p>Mae perthynas strategol hefyd ar waith â phartneriaid cyfathrebu h.y. Wythnos Cymru yn Llundain,</p>	Parhaus	Alwen Williams Nia Medi Williams Erin Gwenlli Thomas

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Tud. 49				<p>Newyddion Busnes Cymru, ymgynghoriaeth Ateb Cymru. Derbynnir y dylid ehangu cyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â busnesau a bydd y strategaeth newydd yn cefnogi'r Swyddfa Rheoli Prosiect a'i phartneriaid i rannu negeseuon priodol a pherthnasol â chynulleidfaedd allweddol mewn ffordd strategol wedi'i thargedu.</p> <p>Yn ogystal, mae gan y Swyddfa Rheoli Prosiect swyddog caffael mewn swydd bellach. Mae'r Swyddfa Rheoli Prosiect yn bwriadu cynnal cyfleoedd amserol a rheolaidd i'r prynwr cyn yr</p>		

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
				ymarferion caffael ar raddfa fawr er mwyn ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi leol a'i hysbysu.		
P3	Tryloywder <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu'r angen i gynnal tryloywder a gwerthoedd y sector cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau wrth weithredu yn yr amgylchedd busnes 	Bydd penderfyniadau yn parhau i fod yn dryloyw wrth weithredu mewn amgylchedd busnes	Ydy	<p>Cynhelir holl gyfarfodydd NWEAB yn unol â rheoliadau llywodraeth leol. Caiff yr holl benderfyniadau a wneir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd eu cofnodi ac maent ar gael ar wefan yr awdurdod lletyol - https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistmeetings.aspx?cid=418&year=0</p> <p>Mae polisi a phroses ar gyfer rheoli unrhyw wrthdaro</p>	Parhaus	<p>Iwan Evans (Swyddog Monitro)</p> <p>a</p> <p>Hedd Vaughan-Evans</p>

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Tud. 51	cystadleuol a masnachol iawn.			<p>buddiannau sy'n codi wedi'u rhoi ar waith bellach, sy'n cael eu cyflwyno ar draws y Bwrdd Uchelgais Economaidd, y Bwrdd Cyflawni Busnes, Byrddau Rhaglenni a Byrddau Prosiect.</p> <p>Tryloywder yw un o'r Egwyddorion Caffael a fabwysiadwyd gan NWEAB ac mae'n nodwedd allweddol o'r holl weithgareddau caffael.</p>		

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	<p>Craffu</p> <ul style="list-style-type: none"> Sefydlu gwaith craffu ffurfiol ac amserol ar NWEAB sy'n darparu tryloywder cyhoeddus ac sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynghorau sy'n noddi. 	<p>Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cael eu dwyn i gyfrif o fewn y bartneriaeth a gan eu sefydliad sy'n noddi</p>	<p>Ydy</p>	<p>Cyflwynwyd adroddiad Cynnydd chwarterol Ch4 yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ac maent yn cael eu trafod gan bwyllgorau craffu ym mhob un o'r Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd. Bydd adroddiadau cynnydd chwarterol yn cael eu cyflwyno wrth symud ymlaen, gydag ymrwymiad gan y Swyddfa Rheoli Prosiect i fynd i un pwyllgor craffu y flwyddyn pe bai'n ofynnol iddynt fynd gyda swyddogion awdurdodau lleol. Cyflwynir yr adroddiadau Chwarterol a Blynyddol i holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais</p>	<p>Cytunwyd yn rhan o Gytundeb Llywodraethu 2 ym mis Rhagfyr 2020.</p>	<p>Iwan Evans (Swyddog Monitro)</p> <p>a</p> <p>Hedd Vaughan-Evans</p>

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
				Economaidd ac maent ar gael i'r cyhoedd.		
P5	Trefniadau cymorth <ul style="list-style-type: none"> Datblygu cytundebau sy'n nodi'n glir y cymorth a roddwyd i'r Swyddfa Rheoli Prosiect gan Gyngor Gwynedd megis llywodraethu, adnoddau dynol a chyllid. 	Eglurder ynghylch pa gymorth sydd i'w ddarparu i osgoi anghytundeb posibl	Ydy	Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151.	Parhaus	Hedd Vaughan-Evans

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
P6	<p>Adolygiad o brosiectau</p> <ul style="list-style-type: none"> Wrth adolygu dichonoldeb prosiectau unigol, diffinio sut y mae pob un yn cyfrannu at gyflawni saith Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. 	Hyder bod prosiectau'n cadw at y rhaglen a'u bod yn bodloni gofynion deddfwriaethol	Ydy	<p>Mae'r Swyddfa Rheoli Prosiect wedi sefydlu proses gadarn o sicrhau a chymeradwyo prosiectau gan gynnwys ystyriaeth drwy adolygiadau porth, byrddau prosiect, byrddau rhaglenni, bwrdd portffolio a NWEAB. Mae Asesiad Effaith yn cyd-fynd â phob achos busnes sy'n ystyried yr effaith ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Cydraddoldeb a'r Gymraeg.</p> <p>Mae ein dull gweithredu wedi'i seilio ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ysgogi twf</p>	Ebrill 2021	Hedd Vaughan-Evans

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Tud. 55				economaidd cynhwysol i'r rhanbarth yn y ffordd iawn.		

Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD	15 Gorffennaf 2021
TEITL	Adolygiad Ffordd Gwynedd
PWRPAS YR ADRODDIAD	Hysbysu'r Aelodau o gasgliadau'r Archwiliwr Dosbarth ac adrodd ar y camau nesaf arfaethedig
AWDUR	Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys
GWEITHREDIAD	Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r camau nesaf sydd yn cael eu hargymhell

1. CYFLWYNIAD

O ganlyniad i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal adolygiad ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym maes gofal cymdeithasol oedolion o fewn y Cyngor yn 2019, bu i'r Cyngor gytuno efo'r Archwiliwr Dosbarth y byddai'n fuddiol cynnal adolygiad dilynol o gynnydd Ffordd Gwynedd ar draws ein holl wasanaethau. Mae casgliadau'r Archwiliwr yn bennaf seiliedig ar gyfweiliadau a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2020 gyda phob Pennaeth Adran a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ogystal a'r wybodaeth a gasglwyd mewn amryw archwiliadau ac adolygiadau dros y pum mlynedd blaenorol.

Mae'r llythyr a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n crynhoi prif gasgliadau yr Archwiliwr, i'w weld yn Atodiad 1.

Mae Tîm Rheoli'r Cyngor (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r 10 Pennaeth Adran) wedi ystyried y casgliadau ac wedi cytuno ar raglen waith cychwynol sy'n cyfarch ac yn ymateb i nifer o'r casgliadau hynny.

Un o'r camau cyntaf y mae'r Prif Weithredwr ei hun yn awyddus i arwain arno yw i gynnal adolygiad ar ffurf hunan-asesiad ymhob Adran, fydd yn adnabod sut ac i ba raddau mae egwyddorion y "Ffordd Gwynedd" o weithio wedi gwreiddio ar draws y Cyngor. Mae'r bwriad hwn yn cyd-fynd hefo dymuniad aelodau'r Pwyllgor hwn i ffurfio "Grŵp Tasg a Gorffen" er mwyn adolygu'r cynnydd sydd wedi'i gyflawni yn enw Ffordd Gwynedd yn y Cyngor.

Yng nghyfarfod y Gweithgor Craffu a gynhaliwyd hefo aelodau'r Pwyllgor hwn ar y 4ydd o Fai eleni, cytunwyd i amseru gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen yn ystod yr Hydref eleni. Mae'r Prif Weithredwr wedi cynnig ei fod yn cydweithio hefo aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen, a swyddogion eraill, er mwyn llunio briff i'r Adolygiad ac yna i ystyried y casgliadau a chynnig argymhellion o ganlyniad.

2. ARGYMHELLIAD

Bod y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei sefydlu, o 'fysg aelodau'r Pwyllgor hwn, er mwyn cydweithio efo'r Prif Weithredwr i gynnal adolygiad o sut ac i ba raddau y mae egwyddorion y "Ffordd Gwynedd" o weithio wedi gwreiddio ar draws y Cyngor.

Y Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon.
LL55 1SH

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: 2240A2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2021

Annwyl Dilwyn,

Ffordd Gwynedd – Adolygiad Lefel Uchel

Ar ôl ein hadolygiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o'r Timau Ardal yn y gofal cymdeithasol i oedolion yn 2019, fe wnaethom gynllunio, gyda'ch cefnogaeth, i gynnal adolygiad dilynol o Ffordd Gwynedd. Roedd y gwaith dilynol hwn i edrych ar y cyngor cyfan, ond gyda throsolwg 'lefel uchel' o'i chymharu â'r dull manwl a ddilynwyd gennym yn flaenorol. Mae ein casgliadau yn y llythyr hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau diweddar gyda phob Pennaeth Gwasanaeth, ein hadolygiad o'r Timau Ardal, a'n gwybodaeth gronedig am Ffordd Gwynedd a ddatblygwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae Ffordd Gwynedd yn ymwreiddio'n dda ac yn sbarduno newid diwylliannol, fodd bynnag, mae yna rai rhwystrau a chamsyniadau cyffredin yn bodoli sy'n arafu cynnydd Ffordd Gwynedd

Mae'n amlwg bod Ffordd Gwynedd wedi cael effaith fawr ar y ffordd y mae Cyngor Gwynedd yn gweithio ac yn meddwl. Mae'r Cyngor wedi trawsnewid elfennau o'r ffordd y mae'n gweithio drwy brosiectau newid a gefnogir yn gorfforaethol a rhai a sbardunwyd gan wasanaethau, yn ogystal â rhaglen hyfforddi sylweddol ar gyfer uwch-swyddogion.

Fodd bynnag, ceir rhai camsyniadau cyffredin a rhai rhwystrau sy'n llesteirio cynnydd pellach. Mae'r materion hyn yn cyfyngu ar y ffordd y mae Ffordd Gwynedd yn ymwreiddio ac yn dod yn rhan o'r ffordd reddfol o weithio.

Cysyniadau

Canolbwynt gweithgareddau – mae'r syniad o roi pobl Gwynedd yng nghanol popeth y mae'r cyngor yn ei wneud yn eglur. Fodd bynnag, caiff hyn ei fynegi'n amlach fel rhoi'r dinesydd yn y canol. Ar yr olwg gyntaf, newid bychan yn y geiriad yw hwn sydd heb arwyddocâd. Fodd bynnag, gall cael y gair 'dinesydd' mewn golwg gyfyngu'r meddwl ynghylch pwy neu beth yw canolbwynt y gweithgaredd sy'n cael ei gyflawni.

Mewn rhai achosion, yr unigolyn yw'r canolbwynt cywir, ond mewn achosion eraill gallai fod yn grŵp bach neu'n gymuned neu, yn y pegwn arall, gallai fod y sir gyfan. Mae angen i'r Cyngor ei herio ei hun o ran pwy neu beth ddylai fod yn ganolbwynt i'r gweithgaredd, a beth yw'r allbynnau cyffredinol y mae'n bwriadu eu cyflawni.

Atal – mae atal yn weithgaredd y tybiwn ei fod yn digwydd cyn ymyrryd. Gan ystyried y gair Saesneg am 'atal', sef 'prevention', rhagddodiad sy'n golygu 'o flaen', 'cyn', 'ymlaen llaw' yw 'pre'. Beth bynnag, mae angen atal cyn, yn ystod ac ar ôl ymyriadau er mwyn cadw'r peth rhag digwydd eto, neu waethygu neu ddatblygu modelau cylchol, fel a welir mewn meysydd megis plant sy'n derbyn gofal, y mae eu plant hwythau yn eu tro yn aml yn derbyn gofal.

Mae angen i'r Cyngor ei herio'i hun ynghylch atal, a sicrhau ei fod yn glir sut y gellir gwneud gweithgarwch atal yn elfen greiddiol yn y gwaith o gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau.

Arian – Mae cyfyngiadau ariannol wedi bod yn nodwedd glir a phresennol o lywodraeth leol dros y ddeng mlynedd ddiwethaf ac yn debygol o fod felly am beth amser i ddod. O'r herwydd, ceir cydberthynas glir, sydd wedi tyfu dros amser, rhwng Ffordd Gwynedd a'r angen i wneud arbedion. Er y gellir cyfiawnhau rhywfaint o'r cysylltu hwn, nid hyn ddylai fod yr unig sbardun. Mae angen dangos na fydd gwneud y peth iawn o bosibl yn arwain at arbedion ac y bydd gwneud y peth iawn, mewn achosion eraill, efallai yn costio mwy.

Dangosir hyn yn fwy amlwg gan yr anawsterau a welir yn aml wrth gyfrifo arbedion drwy newid y broses o feddwl yn nhermau systemau, yn hytrach na phwyso penderfyniadau ar wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Ar adegau, cyn belled â bod yna ddadl resymegol dros wella canlyniadau ac os yw'r adnoddau'n caniatáu, mae angen cymryd naid o ffydd a chredu y bydd dileu camau prosesau gwastraffus a gwneud buddsoddiad er mwyn gwella canlyniadau yn sicrhau arbedion yn y tymor canolig, hyd yn oed os na ellir profi hynny ar y dechrau.

Mae angen i'r Cyngor ei sicrhau ei hun nad yw'n cyfyngu ar arloesedd a chanlyniadau gwell drwy adael i'r angen i ddangos arbedion ddod yn gyntaf, cyn

cychwyn prosiectau newid. Mae angen iddo argyhoeddi swyddogion bod Ffordd Gwynedd yn ymwneud â gwneud y peth iawn mewn gwirionedd, hyd yn oed os yw'n costio mwy ar adegau. Heb gymryd y cam hwn, ni fydd swyddogion yn cynnig syniadau oni bai eu bod yn gallu profi'r arbedion ariannol yn glir, ac fe fydd hyn yn parhau i fygau arloesedd, gan atal rhagor o gynnydd, ac arwain at waeth canlyniadau o bosibl.

Data – Mae data yn ffynhonnell wybodaeth allweddol. Mae angen data er mwyn rhagweld y galw, cyfiawnhau newid, mesur gwariant neu egluro gwyrriad oddi wrth y canlyniadau neu'r costau cyflawni disgwylidig. Nid yw'n ymwneud â thargedau; yn hytrach, mae'n ymwneud â gwybodaeth. Heb ddata, nid oes gan sefydliadau y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae arnynt ei hangen ar gyfer cynllunio a chyllidebu strategol a gweithredol. O ganlyniad, gall y ddau fod yn wannach.

Mae'r angen am ddata yn rhan sylfaenol o Ffordd Gwynedd; mae'n ffurfio rhan o'r hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw'r angen hwn wedi ymwreiddio'n gyffredinol fel egwyddor ac mae rhai gwasanaethau yn brin o ddata digonol. Er enghraifft, ein hadroddiad ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - roedd darparu Gwasanaeth Gofal drwy bum Tîm Ardal yn tynnu sylw at y diffyg data ystyrlon o fewn Gwasanaethau Oedolion.

Mae'n gadarnhaol nodi bod y Cyngor wedi cydnabod yr angen am wybodaeth fanylach yn ystod pandemig COVID a'i fod bellach yn rhoi model rheoli perfformiad diwygiedig ar waith. Mae angen i'r Cyngor barhau â'r fenter hon a sefydlu mesurau i sicrhau bod pob gwasanaeth yn berthnasol, yn werthfawr ac o safon ac wedyn defnyddio'r mesurau hyn i reoli gwasanaethau'n effeithiol.

Diwylliant

Grymuso, Ymddiriedaeth ac Arweinyddiaeth – Mae Ffordd Gwynedd yn disgwyl i swyddogion unigol gymryd meddiant a chael eu grymuso i sbarduno newid a chynnig ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, er mwyn teimlo eich bod wedi eich grymuso, mae angen gallu ymddiried yn y rhai o'ch cwmpas. Mae angen iddynt fod yn gefnogol ac yn gadarnhaol, hyd yn oed wrth herio. Mae amgylchedd diogel yn allweddol, sef man diogel i arbrofi ac i edrych i mewn i syniadau. Man lle mae'n ddiogel i fethu a dysgu, gan geisio cefnogaeth a mewnbwn gan gydweithwyr.

Yn amlwg, ar lefel uwch yn unrhyw sefydliad mae angen cynhenid i dderbyn ac ymateb i her, mae'n rhan o'r swydd. Ond rhaid ei wneud mewn ffordd adeiladol, gefnogol neu, fel arall, gall fod yn wrthgynhyrchiol.


Ar hyn o bryd, yn y Cyngor, mae yna enghreifftiau lle nad yw'r berthynas hon o ymddiriedaeth a her adeiladol yn bodoli; caiff her ei disgrifio'n aml yng ngeiriau rhai pobl a caiff ei gweld gan eraill fel rhywbeth dinistriol.

Er bod Ffordd Gwynedd yn gobeithio grymuso pawb, ni waeth pa lefel y maent arni yn y sefydliad, er mwyn sicrhau amgylchedd lle ceir mwy o ymddiriedaeth, efallai y bydd angen i'r Cyngor droi'n ôl at ddull mwy traddodiadol, strwythuredig o ddatblygu syniadau yn y tymor byr. Bydd hyn yn galluogi'r staff i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr llinell, a rhoi syniadau gerbron yn sicr yn y wybodaeth y cânt gefnogaeth eu rheolwr llinell. Bydd dilyn y dull hwn yn rhoi'r amser sydd ei angen i ddulliau o arwain, megis hyfforddi a mentora, ddatblygu ac i'r Cyngor ystyried a sefydlu'r strwythurau a'r trefniadau sydd eu hangen i gyflawni fel tîm "Un Gwynedd". Gwir brawf llwyddiant fydd llif o syniadau sy'n cael eu cyflwyno ar y cyd, gyda chefnogaeth pawb, heb unrhyw heriau dinistriol ar y funud olaf. Bydd hyn yn brawf gwirioneddol ar arweinyddiaeth, ond mae datrys hyn drwy'r sefydliad i gyd yn sylfaenol i ddyfodol Ffordd Gwynedd.

Brand – Ceir enghreifftiau o heriau yn cael eu gwneud ar hyd y llinellau, 'dim dyna Ffordd Gwynedd'. Pan fo hyn yn gywir, gellir cyfiawnhau'r her, ond pan fydd yn cael ei sbarduno gan gamddealltwriaeth ynghylch rhai o'r cysyniadau y cyfeirir atynt uchod, mae'n anffodus ac yn ddinistriol. Mae angen herio'r achosion hyn yn ofalus, hyd yn oed os yw'r sawl sy'n gwneud y datganiad yn cael ei ystyried yn uwch neu os yw mewn safle o awdurdod.

Bwriedir i'r casgliadau hyn fod yn ddefnyddiol ac yn adeiladol. Er eu bod yn gryn her i'r Cyngor, teimlwn y bydd goresgyn y rhwystrau hyn yn cadarnhau Ffordd Gwynedd ymhellach fel conglaen y ffordd y mae'r Cyngor yn meddwl, yn cynllunio ac yn gweithredu.

Yn gywir



Jeremy Evans, Rheolwr Archwilio

Eitem 7

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	15 GORFFENNAF 2021
TEITL	TREFNIADAU RHEOLI RISG
PWRPAS YR ADRODDIAD	RHOI DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU AM DREFNIADAU RHEOLI RISG Y CYNGOR
AWDUR	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG)
GWEITHREDIAD	DERBYN DIWEDDARIAD AM DDATBLYGIADAU I'R TREFNIADAU RHEOLI RISG

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Un o gyfrifoldebau statudol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol, yn unol â Rhan 81(1)(c) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
- 1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddarau'r Pwyllgor ar ddatblygiadau diweddar yn y maes rheoli risg.

2. SEFYLLFA GYFREDOL

- 2.1 Mae aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r trefniadau sydd yn bodoli ar gyfer asesu a sgorio risgiau, gan ei fod yn cael ei gyflwyno'n rheolaidd fel rhan o ddiweddariad y Rheolwr Archwilio ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Ers 2018, mae dull Archwilio Mewnol o asesu risgiau'r gwasanaethau sy'n cael eu harchwilio yn dilyn y drefn yma.
- 2.2 Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 27 Mai. Eglurwyd bryd hynny fod hwnnw wedi cael ei baratoi ar sail y 23 risg llywodraethu sydd wedi cael eu hadnabod ac sy'n cael eu hasesu'n barhaus gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.
- 2.3 Mae drefn a ddefnyddir yn ystyried dau ffactor wrth sgorio maint y risgiau, sef
 - **Effaith** y digwyddiad petai'r risg cael ei wireddu
 - **Tebygolrwydd** y risg o gael ei wireddu.

2.3.1. Mae'r Effaith a'r Tebygolrwydd yn cael eu sgorio o 1 i 5, gan ddefnyddio'r canllawiau sgorio canlynol.

Effaith

Sgôr	Effaith	Diffiniad
5	Catastroffig	Effaith catastroffig ar unrhyw drigolyn (e.e. colli bywyd) neu effaith dinistriol ar fywyd neu les nifer fawr o drigolion
4	Dinistriol	Effaith dinistriol ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. lle byddai ansawdd bywyd neu les rhywun yn cael ei effeithio i'r graddau fod anghenion dwys ganddynt am gymorth i'w galluogi i fyw eu bywydau) neu sylweddol iawn ar nifer fawr o drigolion
3	Sylweddol iawn	Effaith sylweddol iawn ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith yn golygu y byddai ansawdd ei bywyd neu les yn sylweddol is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl i un o drigolion Gwynedd) neu arwyddocaol ar nifer fawr o drigolion
2	Arwyddocaol	Effaith arwyddocaol ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu gweladwy ar nifer fawr o drigolion
1	Gweladwy	Effaith gweladwy ar fywyd neu les rai trigolion (e.e. effaith yn weladwy ond ddim yn effaith arwyddocaol i'w lles) neu ymylol ar nifer fawr o drigolion.

- Nifer = 10au i 100oedd o drigolion
- Nifer fawr = 1,000oedd i 10,000oedd o drigolion

Tebygolrwydd

Sgôr	Tebygolrwydd	Diffiniad
5	Digwydd rŵan	Mae'r effaith i'w weld rŵan (h.y. mae o'n digwydd)
4	Tebygol iawn	Tebygol iawn y bydd yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy
3	Tebygol	Siawns y gallai ddigwydd, ond efallai ddim
2	Annhebygol	Tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno
1	Annhebygol iawn	Annhebygol iawn o ddigwydd

2.3.2. Lluosir y Sgôr Effaith a'r Sgôr Tebygolrwydd gyda'i gilydd i roi Sgôr Risg Presennol, sef sgoriau'r risgiau ar sail y rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Diffinnir Sgôr Risg o uchel iawn i isel fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	Risg Uchel iawn
Sgôr 12-16	Risg Uchel
Sgôr 6-10	Risg Ganolig
Sgôr 1-5	Risg Isel

Asesiad Gyfredol

2.4 Mae'r trefniadau rheoli risg yn faes penodol sy'n cael sylw wrth asesu trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol (a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar 27 Mai) yn disgrifio'r sefyllfa bresennol fel a ganlyn:

2.5 Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd: Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol.

Mae pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnblyg y Cyngor.

Lansiwyd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ar 6 Mawrth 2021. Mae'r system newydd yn cynnig cyfleuster hwylus i ddefnyddiwr ym mhob adran wrth iddynt ystyried eu blaenoriaethau a nodi beth sydd angen ei wneud, ac i gynorthwyo aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwylidig wedi cael eu cymryd.

Mae'r Pandemig Covid-19 wedi bod yn brawf sylweddol i Gynllun Pandemig Ffliw ac i gynlluniau parhad gwasanaeth y Cyngor. Yn syth fe welwyd yr hyn sy'n digwydd gydag unrhyw gynllun, sef bod yna bethau yn digwydd nad ydynt wedi eu cyfarch yn y cynllun. Er enghraifft nid oedd y Cynllun Pandemig Ffliw yn rhagweld y byddai cymdeithas ei hun yn cael ei gloi lawr ac y byddai angen dygymod nid yn unig gydag absenoldebau staff ond hefyd gyda staff i gyd yn gweithio o adref.

Serch hynny llwyddwyd i ymateb ac mae'r nifer cymharol is yn yr achosion na'r hyn a ragwelwyd yn y tafluniadau gwreiddiol; y cyfyngiad yn y nifer marwolaethau a'r ffaith y bu modd i'r Cyngor barhau i ddarparu ei wasanaethau Blaenoriaeth 1 yn dyst i hynny.

3. DATBLYGIADAU DIWEDDAR

3.1 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 yn nodi'r canlynol fel camau pellach sydd angen eu cymryd i gryfhau ymhellach y trefniadau rheoli risg:

Gwaith dal angen ei wneud i sicrhau fod holl adrannau'r Cyngor yn cynnal y drefn o gofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd. Bydd y Gwasanaeth Yswiriant a Risg yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod risgiau yn cael eu diweddar'u'n barhaus. Bydd y drefn o ystyried cynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau yn datblygu ymhellach.

3.2 Nodir yn y Datganiad Llywodraethu fod y gofrestr risg ar ei newydd wedd wedi cael ei gyflwyno ar 6 Mawrth. Mae'r gofrestr newydd yn cael ei gadw ar dechnoleg Sharepoint, fel mae iGwynedd, system gadw dogfennau gorfforaethol y Cyngor. Mae hynny'n golygu symud ymlaen o'r drefn flaenorol oedd yn defnyddio taenlen Excel i system dylai fod yn llawer mwy hwylus i'w ddiweddar'u a'i gadw dan adolygiad.

3.3 Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn Nhachwedd 2020 fod nifer yr addasiadau i'r Gofrestr Risg wedi cynyddu, oedd yn arwydd calonogol fod dealltwriaeth o bwysigrwydd y gofrestr yn parhau i gynyddu.

3.4 Mae gwaith pellach angen ei wneud rŵan i sicrhau fod modd adrodd yn hwylus allan o'r system fel rhan o drefniadau adolygu perfformiad y Cyngor, sy'n parhau i esblygu. Y disgwyliad yw y bydd y drefn monitro perfformiad yn ystyried y cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn erbyn y camau pellach sydd angen eu cymryd i liniaru'r risgiau yn y gofrestr.

4. COFRESTR GYFREDOL

4.1 Rhoddwyd sylw penodol i'r Gofrestr Risg Corfforaethol gan y Prif Weithredwr ar y pryd yng nghyfarfodydd y Rhwydwaith Rheolwyr yn ystod Hydref / Tachwedd 2020. Defnyddiwyd y cyfle i egluro i reolwyr fod angen i bob adran ystyried ei brif risgiau gan ddefnyddio'r drefn arferol o adnabod materion all ddiwydd ac a fyddai'n effeithio ar allu uned fusnes i wireddu ei bwrras.

4.2 Mae gan bob swyddog ar lefel rheolwr neu uwch fynediad at y gofrestr risg gyda'r bwriad o sicrhau ei fod wedi ei ddiweddar'u'n briodol mor fuan â phosib. Wrth gwrs, ni fydd y gofrestr byth wedi ei orffen gan ei fod yn ddogfen fyw, ond y disgwyliad yw y byddwn ar bwynt lle mae'r gofrestr yn adlewyrchiad o wir sefyllfa'r Cyngor.

4.3 Ar 2 Gorffennaf 2021, roedd 353 o risgiau wedi cael eu nodi yn y gofrestr risg gorfforaethol. O'r rhain, roedd 62 wedi cael eu harchifo; hynny yw maent wedi cael eu rheoli i lefel dderbyniol ar hyn o bryd a nid oes camau pellach angen eu cymryd. Byddant yn parhau i gael eu hadolygu, ond unwaith y flwyddyn yn hytrach nag yn barhaus.

4.4 Mae hyn yn golygu felly fod **291 o risgiau cyfredol** yn y gofrestr, ond o'r rhain mae 4 ar hyn o bryd heb gael eu sgorio (a byddwn yn dilyn i fyny ar hyn). O'r 287 o risgiau cyfredol wedi cael eu sgorio, maent wedi cael eu categorio fel a ganlyn:

- **Nifer risgiau uchel iawn: 23**
- **Nifer risgiau uchel: 72**
- **Nifer risgiau canolig: 160**
- **Nifer risgiau isel: 32**

4.5 Ar 2 Gorffennaf 2021, roedd y risgiau uchel iawn yn perthyn l'r adrannau canlynol:

Adran	Nifer Risgiau Uchel iawn
Economi a Chymuned	13
Oedolion, Iechyd a Llesiant	6
Plant a Theuluoedd	1
Tai ac Eiddo	1
Ymgynghoriaeth Gwynedd	2
CYFANSWM	23

4.6 Mae manylion yr 23 risg uchel iawn wedi cael eu cynnwys yn yr Atodiad; bydd y risgiau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus gan yr adrannau, er mwyn adolygu os oes modd newid y sgôr am fod y risg wedi profi i fod yn llai nag a ragwelwyd, neu wrth i gamau gweithredu gael eu gwireddu. Bydd rhain wedyn yn cael sylw yn y cyfarfodydd monitro perfformiad.

4.7 Mae'n bwysig nodi hefyd y bydd grŵp o swyddogion – y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu – hefyd yn ymgymryd â rôl cymedroli ar gyfer y gofrestr risg er mwyn sicrhau fod y sgorio yn gyson o un adran i'r llall.

4.8 Bydd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y dyfodol yn derbyn gwybodaeth am newidiadau o'r sgoriau risg, fel bod modd iddo asesu trefniadau rheoli risg y Cyngor yn unol â'i ddyletswyddau statudol.

4.9 Gwelir o'r Atodiad mai un o risgiau uchaf y Cyngor ar hyn o bryd yn ôl y gofrestr yw'r Busnesau Gwynedd yn cael eu heffeithio yn sgil cytundeb Brexit. Gan fod y gytundeb yma yn ei le ers rhai misoedd bellach, gellir gweld beth yw gwir effaith Brexit ar fusnesau Gwynedd wrth i amser fynd yn ei flaen, gyda golwg i weld os bydd modd newid y sgôr, ond mae ansicrwydd mawr dal i fodoli..

4.10 Nodir fod Cofrestr Risg Brexit benodol yn cael ei chynnal ar wahân ar hyn o bryd.

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu dderbyn yr adroddiad hwn fel diweddariad ar y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i sicrhau fod cofrestr risg gyflawn yn ei le ac yn cael chynnal, ac ystyried y risgiau uchaf mae'r Cyngor yn eu wynebu..

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Diweithdra

Risg: Lefelau diweithdra wedi cynyddu yn sydyn yn sgil COVID (E8)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Diweithdra a lleihad mewn incwm aelwydydd yn effeithio ar iechyd a lles unigolion a theuluoedd yn a'r economi. Wedi gwyro blaenoriaethau er mwyn gallu ymateb o fewn adnoddau presennol ac eisoes wedi:

- Ymestyn rhaglen Cymunedau i Waith er mwyn cefnogi mwy o unigolion di-waith sydd wedi eu cyfeirio gan asiantaethau Llywodraeth i dderbyn cymorth i oresgyn rhwystrau i waith
- Cefnogi gweithluoedd sydd yn cael eu diswyddo i'w cefnogi i gael mynediad i'r wybodaeth berthnasol gan y gwahanol wasanaethau a hynny mewn cyfnod lle mae cyfyngiadau COVID
- Cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen 'Kickstart' y Llywodraeth yng Ngwynedd. Rôl Cyngor Gwynedd wedi ei gyfyngu i weinyddu'r cynllun ar hyn o bryd a cholli cyfle i fod yn fwy rhagweithiol yn cefnogi busnesau i fod yn rhan o'r cynllun er mwyn datblygu sgiliau gwaith pobl ifanc.

Sgôr Risg: 25

Be sydd gael am ei wneud eto?

Byddwn yn cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r 3ydd Sector er mwyn darparu cymorth i gefnogi busnesau a chyflogwyr lleol i gyflogi pobl ifanc am gyfnod o 6 mis a datblygu eu sgiliau gwaith. Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn amlygu'r wybodaeth a chymorth sydd ar gael i gefnogi'r di-waith a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cyflogaeth. Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn cefnogi unigolion i oresgyn rhwystrau i waith. Bydd tasglu a sefydlwyd yn ystyried os oes camau pellach gall Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid ei gymryd i gefnogi busnesau a chyflogwyr i gynnig profiadau gwaith a chyflogaeth.

Adran: Plant a Theuluoedd

Maes:

Risg: Methu cyfarch ein anghenion fel teuluoedd a chyfarch yr hyn sy'n bwysig i ni oherwydd materion gweithlu. (G2)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Yn y tymor byr iawn (brys) mae angen llenwi bylchau staffio gan wneud cysylltiad hefo gweithwyr cymdeithasol sydd wedi ymddeol neu wedi symud oddi fewn yr Adran; law yn llaw a dargyfeirio staff o dimau sydd yn peri risg llai i'r Adran. Cytuno ar gynllun Tymor Byr gyda cefnogaeth a cyngor Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar gyfer addasu trefniadau recriwtio, amodau gwaith, telerau cytundebau. Gweithio drwy'r Grŵp Recriwtio Gofal i baratoi ar gyfer rheoli'r risg yn y tymor canolig / hir i ddenu a cymhwyso gweithwyr cymdeithasol. Adeiladu cysylltiadau gyda Prifysgol Bangor a'r Asiantaeth Gofal.

Sgôr Risg: 25

Be sydd gael am ei wneud eto?

Angen Cynllun Recriwtio a Datblygu'r Gweithlu mewn lle i gyfarch ein anghenion a prinder gweithwyr cymdeithasol. Angen cynllun tymor byr a cynllun tymor hirach all gynnwys y posibilrwydd o brosiect Cynllunio Gweithlu Yfory i'r Adran gyda chefnogaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Effaith Cytundeb Brexit

Risg: Busnesau Gwynedd yn cael eu heffeithio yn sgil cytundeb Brexit (E6)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Wedi cydweithio drwy WLGA i fesur effaith posibl Brexit ar gymunedau Gwynedd. Wedi cysylltu gyda'r sector breifat i'w hannog i baratoi ar gyfer y sefyllfa waethaf - dim cytundeb. Wedi cyfathrebu gyda busnesau er mwyn cynnig cymorth a gwybodaeth am y sefyllfa. Meini prawf cronfa fenthyg y Cyngor wedi eu hadolygu i gefnogi busnesau sy'n cael eu heffeithio gan newid Brexit.

Sgôr Risg: 25

Be sydd gael am ei wneud eto?

Angen adolygu'r gwaith ymchwil yn sgil cytundeb Brexit a sefydlu rhaglen gyfathrebu gyda busnesau i'w cefnogi i ymateb ac addasu. Bydd angen cydweithio gydag undebau i roi sylw penodol i'r sector amaeth.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Storiol

Risg: Fod ansawdd cynnig Storiol yn dirywio gan nad ydi'n cynhrychu incwm digonol i gynnal gweithgareddau. (E29)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Ers i arian grant Loteri ddod i ben a rheolaeth y cafffi gael ei fewnoli nid ydi Storiol wedi llwyddo i gwrdd â'i dargedau incwm. Cynllun busnes 5 mlynedd wedi ei sefydlu i gyrraedd targedau incwm newydd, ond yn sgil Covid-19 bydd rhaid adolygu os yw'r targedau incwm yn gyraeddadwy. Cafffi bellach wedi ei gau a bydd adolygiad o opsiynau ar gyfer y gofod yn cael ei gynnal. Cais grant CRF am gefnogi gwaith i edrych ar elfennau incwm a busnes Storiol yn 2021. Adolygiad o'r holl gweithdrefnau yn parhau yn ogystal a thrafodaethau gyda'r prif bartner - Prifysgol Bangor.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Comisiwn i adolygu gweithrediad y safle ac i adnabod cyfleon incwm i'w weithredu. Angen sefydlu Ymddiriedolaeth Storiol yn ffurfiol er mwyn cael cerbyd i gefnogi'r gwaith codi nawdd. Angen adnabod ffynonellau cyllido, unwaith y bydd cynllun gweithredu newydd mewn lle er mwyn cefnogi'r newidiadau.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Ansawdd swyddi a lefelau cyflog isel yng Ngwynedd

Risg: Lefel cyflogau Gwynedd ar gyfartaledd yn isel (E1)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Rheolwr prosiect wedi ei phenodi a Rhaglen Swyddi Gwerth Uchel wedi ei sefydlu sydd wedi:

- Adnabod sectorau mwyaf arwyddocaol i Wynedd o ran creu swyddi gwerth uchel
- Dylanwau ar benderfyniad i sicrhau parhad gwaith dadgomisiynnu yn Trawsfynydd gan ddiogelu swyddi am gyfnod.
- Cefnogi achos i sefydlu Cwmni Eginio i ddatblygu safle Trawsfynydd a thargedu buddsoddiad £20miliwn drwy'r cais twf i ddatblygu isadeiledd y safle ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel ac isotopau meddygol.
- Arian i'w fuddsoddi yn isadeiledd safle maes awyr Llanbedr wedi ei sicrhau drwy gais Ewropeaidd a chefnogaeth Llywodraeth Cymru.
- Cefnogaeth i'r sector greadigol a digidol yn cael ei ddaparu.
- Gwaith i ymgysylltu pobl ifanc gyda'r cyfleoedd gwaith yn mynd rhagddo a Phrosiect STEM Gogledd yn cael ei arwian gan Gwynedd yn y rhanbarth er mwyn cynnyddu diddordeb pobl ifanc mewn gyrfaedd yn y sectorau gwerth uchel. Newid strwythur yr economi mewn cyfnod o ansicrwydd yn agenda hir dymor. Arian grant ar gyfer rheolwr rhaglen yn dod i ben 31/03/21 ond y deilliannau ddim wedi eu cyflawni - angen parhau i ddylanwadu a chreu'r amodau.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Mae cyflogau isel yn parhau i fod yn broblem yng Ngwynedd, yn enwedig yn ardal Meirionnydd. Cyfle i ymateb drwy barhau i gydweithio i greu'r amodau cywir i ddatblygu swyddi gwerth uchel o fewn Gwynedd Byddwn wedi cytuno ar raglen i greu mwy o swyddi gwerth uwch yng Ngwynedd gan ystyried effaith COVID a Brexit ar gyflogwyr. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar hyrwyddo sgiliau a gyrfaedd yn y maes gwyddoniaeth, technoleg, electroneg a mathemateg ac ar ddiogelu a chreu swyddi newydd i'r dyfodol ar safle Trawsfynydd, safle maes awyr Llanbedr, o fewn y sectorau meddygol, peirianyddol, digidol a'r diwydiannau creadigol.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Cryfhau'r Economi Wledig

Risg: Nad yw economi wledig yn ffynnu, ond yn hytrach yn crebachu (E3)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Mae'r Cyngor yn ceisio cryfhau sail yr economi wledig. Wedi denu grant Ewropeaidd i weithredu Rhaglen Datblygu Wledig sydd yn cynnwys pecyn o brosiectau arloesol - Arloesi Gwynedd Wledig. Wedi arwain hefyd ar weithredu Rhaglen ARFOR i gryfhau economi rhanbarth gorllewin Cymru. Wedi annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu yn y cymunedau mwyaf gwledig ac wedi buddsoddi mewn isadeiledd technolegol i'w cefnogi. Rhaglen Arfor yn dod i ben 31/03/2021 ac ansicrwydd am barhad cyllideb Rhaglen Datblygu Wledig yn sgil Brexit. Wedi gwneud dadansoddiad o anghenion a pharatoi gweledigaeth newydd er mwyn gwneud achos i'r Llywodraeth fuddsoddi yn ein cymunedau mwyaf gwledig i'r dyfodol.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Gwendid strwythur yr economi wledig wedi ei amlygu ymhellach gan COVID yn arbennig ein dibyniaeth ar dwristiaeth. Angen gwneud achos i fuddsoddi ymhellach yn yr economi wledig er mwyn gallu parhau gyda gweithgareddau i hyrwyddo arloesedd. Sector Amaeth yn debygol iawn o gael ardrawiad yn sgil Brexit a byddwn yn cydweithio gydag undebau amaeth er mwyn cefnogi datblygiad y sector i'r dyfodol. Byddwn yn cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai i ddatblygu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw penodol i ddatblygiad y sector fwyd yn lleol Rhagwelir bydd gofyn cymorth pellach i gefnogi busnesau gwledig i addasu a byddwn yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r economi sylfaenol gan hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Unedau Diwydiannol

Risg: Nad oes darpariaeth o unedau busnes ar gael i ymateb i'r galw a galluogi busnesau Gwynedd dyfu (E5)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Cofrestr wedi ei sefydlu er mwyn mesur y galw am unedau ar draws Gwynedd.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Angen datblygu cynllun buddsoddi unedau diwydiannol newydd mewn ymateb i'r galw.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Adfywio

Risg: Gweithgareddau Adfywio'r Cyngor yn cael llai o effaith gan nad ydynt yn ddigon cydlynol (E9)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Risg fod pob gwasanaeth yn gweithredu eu rhaglenni eu hunain yn unol a'u canllawiau grant, ond efallai ddim yn ymateb i wir anghenion a chyfleoedd adfywio Gwynedd. Mae Bwrdd Adfywio wedi ei sefydlu gyda'r bwriad o ddatblygu Rhaglen Adfywio ar gyfer cymunedau'r Sir. Bydd y Rhaglen yn ymgorffori gweithgareddau traws-adrannol ynghyd â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor. Serch hynny, rhagwleir y bydd angen adnoddau pellach os am ddatblygu rhaglen uchelgeisiol ar draws cymunedau Gwynedd.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio newydd ac yn datblygu 13 Cynllun Adfywio ar gyfer ardaloedd Gwynedd. Byddwn yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid er mwyn deall sut mae cymunedau yn dymuno eu hardaloedd ddatblygu yn y 10-15 mlynedd nesaf, ac yn adnabod blaenoriaethau lleol. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi sylw arbennig i anghenion canol trefi a dyfodol y 'stryd fawr' ar draws Gwynedd i'r dyfodol. Byddwn yn sicrhau fod gweithgareddau ar draws Adrannau'r Cyngor yn cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad y Cynlluniau Adfywio hyn.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Cist Gwynedd

Risg: Llai o gymorth grant ar gael i gymunedau i'w galluogi i gymryd cyfrifoldeb am wasanaethau ac aseddu lleol (E12)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Galw am grantiau yn parhau yn gyson a diffyg sicrwydd am gymorth i'r dyfodol yn gwneud y cyfnod gwariant yn fyr. Swyddogion Cefnogi Cymunedau yn ceisio adnabod ffynhonnellau amgen i gefnogi cymundau, ond llai o gymorth ar gael i gymunedau ar hyn o bryd.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Byddwn yn gwneud tefniadau i barhau i weithredu Cist Gwynedd yn 2021/22

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Twristiaeth

Risg: Nad ydi pobl Gwynedd yn elwa o dwristiaeth gan fod yr effeithiau negyddol yn gorbwyso'r manteision. (E13)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Gwaith wedi ei wneud er mwyn deall y newid mewn tueddiadau twristiaeth dros y blynyddoedd ac adnabod y buddion i Wynedd a'r risgiau, yn cynnwys effaith ar gymunedau, iaith a diwylliant yr ardal ac ail-gartrefi. Bidiau wedi eu cyflwyno i Croeso Cymru er mwyn ymateb i'r galw, ond nifer o gronfeydd ar stop oherwydd Covid-19. Gwaith wedi ei wneud er mwyn cytuno ar egwyddorion twristiaeth Gwynedd fydd yn sail i gynllun rheoli i'r dyfodol. Grwp Gweithredol wedi ei sefydlu i edrych ar ymateb i sefyllfa Covid ar gyfer tymor 2021

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Byddwn yn sefydlu gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer twristiaeth i'r dyfodol ac yn datblygu Cynllun Rheoli Economi Ymweld Gwynedd mewn cydweithrediad efo cymunedau a'r sector er mwyn sicrhau y budd gorau i bobl Gwynedd o ymwelwyr. Bydd y Cynllun yn gosd cyfeiriad i bolisiau a gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor i'r dyfodol, ond bydd hefyd yn cydnabod yr angen tymor byr i ymateb i effaith COVID

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Rheolaeth Traethau

Risg: Prif risg ydi diogelwch pobl yn y mor lle gall fod peryglon i fywyd, ynghyd a pheryglon o strwythrau a gwrthrychau ar y traeth. (E17)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gwelwyd cynydd yn y nifer sy'n ymweld a thraethau Gwynedd yn ystod tymor yr haf gyda newidiadau mewn ymddygiad ac ymwybyddiaeth o beryglon ar yr arfordir. Mae newid wedi ei gyflwyno i strwythur y gwasanaeth yn Ebrill 2020 er mwyn rhoi mwy o sylw i reoli materion morwrol. Mae Cynllun Rheoli traethau wedi cael ei baratoi hefyd er mwyn ceisio diffinio rôl y gwasanaeth yn gliriach a chytuno ar y blaenroiaethau. Mae'n ymdrech i gadarnhau trefniadau cydweithio ar draws adrannau er mwyn sicrhau bod rolau yn glir megis materion casglu gwasatraff a rheolaeth cwn. Mae nifer arwyddion newydd wedi eu gosod ar brif draethau yn tynu sylw at beryglon.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Codi mwy o ymwybyddiaeth ymwelwyr i ddiogelch os ydynt yn bwriadu ymdrochi yn y mor. Nid ydi'r Cyngor yn darparu adnodd achubwyr bywyd ar draethau Gwynedd, ond yn hytrach yn recriwtio tim o wardeiniad traeth ar gyfer prif dymor yr haf. Byddwn yn adolygu'r adnoddau sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaeth sydd yn ymateb i ofynion ein hasesiad risg traethau.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Mesurau Diogelwch Parc Padarn

Risg: Peryglon ar safle Parc Padarn (E24)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Amcangyfrifir fod tua 30 o strwythurau/adeiladau oddi amgylch chwarel Vivien sydd ar y safle. Dros y blynnyddoedd, mae cyflwr rhain wedi dirywio a rhai bellach yn adfeilion. Mae cyflwr y lefelau a bonciau llechi'r chwarel hefyd yn dirywio ac mae cwmp cerrig yn digwydd yn aml ar y safle. Mae asesiad o gyflwr adeiladau / stwythurau chwareli yn cael ei gynnal, asesiadau risg wedi eu paratoi a mesurau brys wedi eu gweithredu. Mae'r Adran hefyd wedi paratoi Cynllun Rheoli Coed ar y safle er mwyn gwarchod diogelwch ar y safle. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer ymwelwyr i ardal Y Glyn o'r Parc gan roi pwysau ar adnoddau lleol. Mae cynlluniau wedi cael eu paratoi i wella mynediad a trefniadau parcio i'r safle.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Monitro cyflwr strwythurau a gweithredu rhaglen o welliannau sy'n ymateb i'r prif risgiau - yn cynnwys rheolaeth coed, strwythurau hanesyddol a llwybrau. Angen cytuno ar drefniadau cyfathrebu newydd i reoli'r safle mewn ymateb i'r cynnydd welwyd mewn ymwelwyr yn 2020

Adran: Ymgynghoriaeth Gwynedd

Maes: Dŵr ac Amgylchedd

Risg: Effaith Newid Hinsawdd. Lefelau mor yn codi a chynnydd mewn cyfnodau stormus. (N3)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Adnabod lleoliadau bregus o rhan risgiau o effaith stormydd, erydiad a llifogydd arfordirol. Cynnal archwiliadau o asedau perthnasol i sicrhau cyflwr a perfformiad. Rheoli gweithredoedd y Cynllun Rheoli Traethlin. Bod yn weithredol o fewn Grwpiau Arfordirol a fforymau perthnasol eraill. Monitro newidiadau ar arfordir Gwynedd ac adrodd yn ôl yn genedlaethol. Gweithredu ar Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Cymru.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Parhau ddenu grantiau gan Lywodraeth Cymru i gynnal asedau a chreu cynlluniau i liniaru risgiau llifogydd ac erydiad arfordirol. Gweithredu yn fwy miniog ar gynllun gweithredol o fewn y Cynllun Rheoli Traethlin ac asesu cyfleon yn dod allan o Cynllun Rheoli Traethlin "adnewyddu" . Asesu sut i weithredu ar newid mewn polisiau. Creu strwythur gyda rhan ddeiliad i gydgordio a cheisio darganfod a chyfarch unrhyw wrthdaro.

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Amgueddfa Lloyd George

Risg: Fod yr Amgueddfa yn gorfod cau i'r cyhoedd os nad oes incwm i'w gynnal yn cael ei ganfod. (E30)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Dim arian Trysorlys bellach i lenwi'r bwlch ariannol i redeeg yr Amgueddfa. Gwaith wedi ei gomisiynu er mwyn cael cyngor arbenigol ar y sefyllfa gyfreithiol. Cydweithio gyda Cyfeillion Amgueddfa Lloyd George er mwyn adnabod camau nesaf. Gwaith asesu pellach yn cael ei wneud i opsiynau i'r dyfodol ac i gytuno ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor fel Ymddiriedolwr yn y cyfamser.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

COVID wedi effeithio ar y gwaith gan arwain at oedi yn yr amserlen gytunwyd rhwng y Cyngor a phartneriaid. Ymddiriedolaeth angen ystyried ei opsiynau a datblygu cynllun busnes newydd er mwyn targedu nawdd i gynnal yr Amgueddfa i'r dyfodol.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: Darpariaeth gofal preswyl a nyrsio a gofal cartref

Risg: Hyfywdra ariannol darparwyr gofal preswyl a nyrsio a darparwyr gofal cartref (F1)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Disgresiwn i dalu 'retainers' i ddarparwyr pan mae unigolion sy'n derbyn gofal yn treulio cyfnodau yn yr ysbyty. Cytundeb i dalu cost uned uwch i ddarparwyr dros gyfnod Covid gyda chefnogaeth gan y Llywodraeth. Bwrdd Prosiect Gofal Cartref yn parhau gyda'r gwaith o weithio tuag at gytundebu cadarn gyda darparwyr gofal ar gyfer ardaloedd penodol. Cefnogi holl ddarparwyr y maes (Gofal Cartref, Cartrefi Gofal, darparwyr Anableddau Dysgu a Iechyd Meddwl) yn yr un modd a rydym wedi bod yn ei wneud dros y misoedd diwethaf. Sicrhau fod unrhyw arian grant sy'n cael ei glustnodi i'r maes yn cael ei ddyrannu yn gyflym ac i'r ardaloedd/meysydd gyda'r flaenoriaeth fwyaf. Cydweithio a deall y pwysau sydd ar ddarparwyr a chydabod fod pob sefyllfa'n gallu bod yn unigryw. Sicrhau fod ein trefniadau gweinyddu ariannol yn parhau i fod yn hyblyg gan geisio hwyluso trefniadau i ddarparwyr sy'n byw gyda risg ariannol yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn. Camau penodol wedi eu cymryd i gynnal ac yna ceisio lliniaru effaith cau ee Cartref y Pwyliaid ym Mhenrhos.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Rhan o brosiect 'Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol' - Ceisio deall "gwir gost gofal" er mwyn ystyried opsiynau posib ar gyfer ein trefniadau comisiynu gofal i'r dyfodol. Sicrhau nad ydi risgiau a bregusrwydd darparwyr yn cynyddu fel y bydd cymorthdaliadau o gronfeydd Covid y llywodraeth yn lleihau neu dod i ben.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: Gofal nyrsio

Risg: Prinder gwelyau nyrsio yn y sir (F2)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Cyfathrebu yn gyson a chlir gyda darparwyr ynglŷn a'r canllawiau diweddaraf gan sicrhau eu bod yn deall eu goblygiadau a'u cyfrifoldebau yn llawn a nad yw unrhyw ddryswch yn cyfrannu at arafwch yn y system i ymateb i anghenion trigolion. Y gefnogaeth yma'n bennaf gan y Tîm Sicrwydd Ansawdd a'r Tîm Rheolaeth Categori.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Rhan o brosiect 'Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol'. Sicrhau ein bod yn deall yr angen am ddarpariaeth gwelyau nyrsio yn y sir a symud ymlaen gyda phrosiect Safle Penrhos er mwyn cyfarch y prinder ym Mhen Llŷn.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: Gofal Dementia

Risg: Prinder gwelyau a darpariaeth cefnogol ar gyfer unigolion yn byw gyda Dementia. (F3)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Wedi buddsoddi mewn 6 o'n cartrefi. Yn adolygu gwasanaethau ataliol fel gofal dydd ac ysbaid a gwaith llesiant yn barhaus gan fod gofalwyr di-dâl yn ysgwyddo pwysau ychwanegol. Bidiau ariannol yn cael eu cyflwyno ac ymdrechion i ddenu arian o gronfeydd megis ICF yn parhau er nad yw hynny yn gosod sylfaen gynaliadwy tymor hir.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Rhan o brosiect 'Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol'. Angen gweithio tuag at gynyddu nifer y gwelyau dementia yn y sir ymhellach. Hyn i gael sylw penodol trwy'r asesiad anghenion poblogaeth. Bwriedir ystyried a yw'n gwasanaethau cefnogol e.e. gofal dydd ac ysbaid yn parhau'n addas er mwyn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd neu os oes angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol. Bydd angen blaenoriaethu agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog ond sydd heb allu agor oherwydd argyfwng Covid-19. Cwblhau'r gwaith o adeiladu uned dementia ychwanegol yn ein cartref yn y Bermo.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: Sicrwydd Ansawdd

Risg: Diffyg capasiti digonol yn y drefn bresennol i adnabod problemau a chynnig cefnogaeth cynnar i ddarparwyr (F5)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Swyddog wedi cael secondiad o'r Uned Busnes i gynorthwyo'r tîm ar sail dros dro. Hyn yn llwyddiant ond ar draul gwasanaethau eraill ac felly ddim yn gynaliadwy. Wedi ymateb i gyfnod o ymddeoliad hyblyg un swyddog o mis Rhagfyr 2020 a cyfnod mamolaeth o ddechrau 2021. Bid am adnoddau parhaol i gryfhau y Tîm wedi ei gyflwyno yn Hydref 2020 sydd i'w ail-gyflwyno yn 2021. Adnoddau wedi eu neilltuo i gyflogi un swyddog hyfforddi/sicrwydd ansawdd i weithio'n benodol o fewn y tîm Anabledd Dysgu.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Rhan o brosiect 'Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol'. Angen cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth digonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd. Adroddiad craffu i'w gyflwyno ym mis Medi ac ail gyflwyno bid i gynyddu capasiti ym mis Hydref.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: System WCCIS

Risg: Materion yn ymwneud a system WCCIS (F8)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Risgiau gyda'r cyflenwyr yn effeithio awdurdodau ar draws Cymru ac felly ymdrechion cenedlaethol a rhanbarthol ar y gweill i geisio canfod datrysiadau. Ystyriaeth yn cael ei roi ar lefel lleol i liniaru effaith unrhyw risgiau ar wasanaethau'r Cyngor er bod y gallu i wneud hyn yn gyfyngedig. Mae grŵp prosiect ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd yn bodoli i gytuno ar drefniadau rhannu gwybodaeth a chyflwyno WCCIS i staff iechyd. Mae gwaith yn digwydd i ddatblygu 'prototeip' mewn un ardal, a ddylai fod yn weithredol erbyn mis Mawrth 2021. Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, mae sefydlu'r 'National Data Resource' yn rhoi cyfleon o'r newydd i ni rannu gwybodaeth rhwng systemau iechyd a gofal. Er enghraifft, rydym yn cynorthwyo cleifion i gael profiad positif wrth adael yr ysbyty, drwy wneud defnydd o'r gallu i wneud 'match' rhwng data gwahanol systemau. Hefyd, mae gwaith ar y gweill i gyflwyno 'apiau' sy'n hwyluso cyfathrebu o fewn timau iechyd a gofal, sydd yn ei dro yn sicrhau bod gofal pobl yn cael ei gydlynu yn well.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Parhau gyda'r ymdrechion cenedlaethol a rhanbarthol i roi pwysau ar y cyflenwr i ganfod datrysiad o ran diweddarau'r system a'i gwneud yn ddiogel a dibynnol. Gwaith gyda iechyd yn rhan o brosiect 'Ail-ddylunio ein gwasanaethau gofal'. Bwriad i arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal yn ogystal â staff iechyd) i allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar hyfforddiant priodol a dileu unrhyw rwystrau technolegol.

Adran: Oedolion, Iechyd a Llesiant

Maes: Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal

Risg: Problemau recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (F10)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Cabinet wedi cefnogi buddsoddiad dros dro i ymateb i bwysau'r gaeaf ac effaith Covid ac ehangu'r pŵl gweithwyr gofal ar gyfer y dyfodol. Ymgyrch #GalwGofal/#Dare2Care. Cryn ymdrech wedi ei roi i raglenni recriwtio sy'n gwneud llawer mwy o ddefnydd o wefannau cymdeithasol. Bwriad ceisio gwthio ymhellach ar yr agenda yma i weld os gellir llwyddo i recriwtio mwy yng nghyd-destyn effaith argyfwng Covid ar gyflogaeth mewn meysydd eraill. Rydym yn rhagweld y bydd pwysau yn parhau dros y flwyddyn/ddwy nesaf gan y bydd gofyn mewnlenwi ar gyfer gwyliau. Mae'n bosib hefyd y gall parhad y cyfyngiadau Covid gael effaith mwy hir dymor ar les staff a bydd hyn yn creu mwy o fylchau i'w llenwi. Tîm Rheoli'r Adran yn rhoi sylw parhaus i'r mater o ddatblygu unigolion fel rhan o raglen 'succession planning' ar gyfer swyddi allan yn y maes ac ar lefel arwain ac uwch reolaethol, yn ogystal hefyd a'r rhaglen i feithrin talent yn lleol trwy gynlluniau megis hyfforddeion a phrentisiaethau. Angen datblygu staff i fod yn fwy hyblyg hefyd - hynny yw, i allu cynnig cefnogaeth ar draws y Gwasanaeth lle bynnag fo'r angen.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Rhan o'r prosiect 'Y Gweithlu a Recriwtio i'r maes gofal'. Mae angen adolygu trefniadau'r ymgyrch recriwtio diweddar #GalwGofal er mwyn ystyried sut fyddwn ni'n mynd ati i recriwtio i'r dyfodol. Ystyried ein trefniadau cofrestru ac hyfforddi yn ogystal â threfniadau datblygu staff er mwyn cynyddu hyblygrwydd a chadernid yn y maes. Datblygu cynllun Meithrin Talent i fynd i'r afael â phrinder arbenigedd mewn rhai meysydd.

Adran: Tai ac Eiddo

Maes: Cyflenwad Tai / Gweithredol Tai

Risg: Methu sicrhau fod neb yn ddigartref yng Ngwynedd (13)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

- Wedi penodi 3 Arweinydd Tim i geisio rhoi strwythur i'r gwaith.
- Strategaeth digartrefedd rhanbarthol a Cynllun Digartrefedd Gwynedd - peth cynnydd wedi ei wneud yn yr wythnosau diwethaf i weithredu.
- Diffyg systemau data i helpu blaenoriaethu ein hymateb a sefydlu'r gwir alw ar y gwasanaeth.
- Housing First -dim cynllun yng Ngwynedd lle mae nifer o siroedd wedi cychwyn ers peth amser.
- Diffyg arbenigedd lechyd Meddwl o fewn y gwasanaeth yn arwain at unigolion yn colli tenantiaeth gan nad ydym yn gallu eu helpu'n ddigonol.
- Wedi sicrhau arian grant i benodi swyddog i arwain ar ddigartrefedd ymysg ieuencid y sir ond heb gymryd mantais o'r arian hyd yma.
- Nifer o asiantaethau gwahanol yn cynnig cymorth i ieuencid digartref ond nid oes un pwynt mynediad na threfn gyfeirio ar hyn o bryd. I ymdrin a'r nifer sylweddol o unigolion digartref yn cael eu cartrefu mewn llety dros dro gan nad oes gennym opsiynau lletya addas ein hunain, sydd yn creu gorwariant sylweddol i'r Cyngor
- Wedi cynyddu'r nifer o dai sydd yn ein meddiant i'w defnyddio fel llety dros dro i oddeutu 95.
- Trefniadau mewn lle gyda darparwyr gwely a brecwast ond nid yw hyn yn ateb fforddiadwy nac addas i nifer fawr o bobl. Gwariant presennol oddeutu £4,000 y noson.
- Hosteli Digartref yn cynnig 12 llety dros dro ond mae'r ddarpariaeth wedi dyddio, angen moderneiddio a newid i fodel llety hunan gynhaliol gyda chefnogaeth.
- Nid oes gennym unrhyw gynlluniau llety â chefnogaeth arall ar gael i'w defnyddio ar gyfer anghenion digartrefedd cyffredinol fel hyn.
- Wedi gallu denu arian grant i gwrdd a chyfran sylweddol o'r gost o ddatblygu 47 o dai/fflatiau newydd gan gynnwys moderneiddio a newid ein hosteli i fodel llety â chefnogaeth.
- Wedi denu arian refeniw i uchafu'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion bregus am gyfnod. Bydd y risg yn lleihau wrth i'r datblygiadau gael eu cyflawni.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Adran: Ymgynghoriaeth Gwynedd

Maes: Dŵr ac Amgylchedd

Risg: Effaith Newid Hinsawdd. Bwrw glaw yn mwy aml ac yn drymach. (N2)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Adnabod digwyddiadau o lifogydd mewnol i dai a gwneud adroddiadau Adran 19. Creu prosiectau penodol i leihau y risgiau o lifogydd i'r dyfodol drwy geisio am arian gan Lywodraeth Cymru. Cynnal archwiliadau o asedau perthnasol i sicrhau cyflwr a perfformiad. Gweithredu ar Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Cymru.

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Parhau i ddenu grantiau gan Llywodraeth Cymru gan gronni digwyddiadau ar lefel dalgylchoedd i osgoi datrysiadau 'lleol' a lliniaru'r risgiau i oll gymunedau Gwynedd o fewn y dalgylchoedd hynny. Codi ymwybyddiaeth o fewn y dalgylchoedd trwy sefydliad cynlluniau cyfathrebu penodol i gynyddu gwytnwch a meithrin cyfrifoldeb dros y risgiau perthnasol ar lefel cymunedau a rhan ddeiliaid perthnasol eraill

Adran: Economi a Chymuned

Maes: Diogelwch staff morwrol

Risg: Staff traethau yn agored i niwed (E18)

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Mae achosion wedi codi lle mae staff yn cael eu bygwth neu yn cael eu ymosod arnynt yn rhinwedd eu swydd wrth geisio gwarchod y cyhoedd. Mae achosion wedi codi hefyd lle mae staff wedi cymryd camau i geisio achub bywydau yn y mor. Mae camau yn cael eu cymryd gan y gwasanaeth i hyfforddi staff a darparu offer priodol i warchod yr unigolion e.e. symud i daliadau electroneg yn hytrach na arian parod; gwisgo body-cams fel mesur ataliol

Sgôr Risg: 20

Be sydd gael am ei wneud eto?

Angen codi mwy o ymwybyddiaeth ymwelwyr i ddiogelch dwr. Bydd adolygiad pellach o strwythur y gwasanaeth ac ystyriaeth i ymestyn tymor a nifer Wardeinaid Traeth

Sylwadau

Staff traethau yn agored i niwed.

Eitem 8

CYFARFOD: **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

DYDDIAD: **15 GORFFENNAF 2021**

TEITL: **GWYDNWCH SYSTEMAU T.G. - DIOGELWCH SEIBR**

PWRPAS: **Diweddarau'r Pwyllgor am wytnwch diogelwch seibr Cyngor Gwynedd, a rhoi cyfle i'r aelodau graffu'r sefyllfa. Bu sôn am ymosodiadau seibr yn y newyddion yn ddiweddar, a gyda chynnydd yn ein dibyniaeth a defnydd o dechnoleg, mae'n amserol i adrodd ar yr hyn sy'n digwydd yn lleol yn y Cyngor.**

AWDUR: **HUW YNYR, PENNAETH CYNORTHWYOL CYLLID –
TECHNOLEG GWYBODAETH**

AELOD CABINET: **CYNGHORYDD IOAN THOMAS**

1. Crynodeb

- 1.1 Mae'r Cyngor â dyletswydd i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau, nifer ohonynt yn defnyddio adnoddau technolegol. Mae'n hanfodol i sicrhau fod yr amgylchedd hwnnw wedi'i ddiogelu rhag bygythiadau fyddai'n medru tanseilio gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ac yn peryglu data yng ngofal y Cyngor.
- 1.2 Mae'r adroddiad hon fod er gwybodaeth yn unig, gan lunio darlun lleygwr o'r ddarpariaeth diogelwch seibr sydd wedi ei baratoi gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. Nodir bod darpariaeth mewn lle i liniaru'r risg o ymosodiad seibr, ond ni ellir gwarantu 100% na fyddai modd i ymosodiad dorri trwy ein amddiffynfeydd. Mae'r gosodiad yma'n wir am bob sefydliad, ond mae mesurau pellach yn eu lle i adfer ein systemau pe byddai ymosodiad yn torri drwy ein amddiffynfeydd.
- 1.3 Er bod pwyslais i weld yn y cyfryngau ar ddiogelwch seibr, mewn gwirionedd, fe ddylai'r pwyslais fod ar wytnwch seibr, sy'n cynnwys yr elfennau o ddiogelu drwy adeiladu amddiffynfeydd, ond hefyd yn cynnwys y gallu i adfer ein hunain o sefyllfa bregus pe byddai'r amddiffynfeydd hynny'n methu.

2. Cefndir

- 2.1 Rydym yn ymwybodol bod ymgyrchwyr yn y maes yn chwilio am wendid yn amddiffynfeydd cyrff cyhoeddus. Felly, byddai'n amhriodol cymryd safbwynt na fyddai'r Cyngor yn darged tebygol i'r sawl sydd yn cynnal ymosodiadau seibr, er gallai corff cyhoeddus cymharol fychan heb warchodfeydd effeithiol fod yn darged haws ar gyfer seibr derfysgaeth.
- 2.2 Gan fod hwn yn faes byw, mae'r ymosodiadau'n esblygu drwy'r amser a mae'n dipyn o sialens i gadw amgylchedd yn gyfredol i gynnal gwasanaethau gwydn. Mae safon y mesurau diogelwch yn ddibynnol ar ystod eang o ffactorau, h.y. mesurau technolegol, ffisegol a gweinyddol, ac mae gan bob unigolyn o fewn y Cyngor a'i bartneriaid rôl hanfodol i'w chwarae rhag eu tanseilio.

2.3 Mae'r Cyngor yn dwyn ar amryw o ffynonellau i ddatblygu a chynnal amgylchedd gwydn, gan gynnwys:

- Safonau ac ymarfer da yn y maes sy'n cael eu cyhoeddi gan gorff cynghori Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar eitemau seibr, yr NCSC (*National Cyber Security Centre*);
- Aelodaeth â chyrrff sy'n rhybuddio am ddigwyddiadau a gwendidau fel y gallwn ymateb yn brydlon;
- Buddsoddi mewn technoleg a gwasanaethau penodol ar gyfer adnabod ac atal newid i'n amgylchedd sydd â photensial i fod yn niweidiol, monitro'r rhwydwaith am weithgareddau amheus ac adnabod meddalwedd sydd angen eu diweddarau;
- Buddsoddi mewn technoleg hydwyth;
- Defnyddio gwasanaethau trydydd parti i werthuso'n darpariaeth;
- Cadw polisiau diogelwch technoleg gwybodaeth yn gyfredol a cydymffurfio iddynt;
- Cynnal ymarferiadau i addysgu a chodi ymwybyddiaeth ein defnyddwyr o beryglon ac ymarfer da a pholisiau y dylid eu dilyn.

3. Risgiau a mesurau i'w lliniaru

3.1 O safbwynt technoleg gwybodaeth, colli data neu colli fynediad at ddata yw'r risg â'r effaith uchaf i'r Cyngor gan y gallai hynny arwain at allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'n hanfodol fod y Cyngor yn cymryd camau i atal, a gallu ymateb yn effeithiol, i'r risgiau yma. Gweler isod esiamplau o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor.

3.2 **Adnoddau'n wynebu'r byd cyhoeddus:** Mae darparu gwasanaethau i unigolion, grwpiau a sefydliadau, â hynny mewn amrywiaeth o leoliadau, yn golygu fod rhyngwynebau rhai systemau'n wynebu'r cyhoedd, gan gyflwyno agoriad i unigolion neu sefydliadau â bwriadau gelyniaethus.

Trefniadau Gwynedd: Mae prosesau a gweithdrefnau rhaglennu y Cyngor yn dilyn y safonau penodol i'n diogelu rhag ymyrraeth â bwriad gelyniaethus, a mae system monitro ac asesu am wendidau mewn lle sydd yn ffurf effeithiol i sicrhau fod y prosesau hynny yn cael eu dilyn heb eithriad.

3.3 **Atal Gwasanaethau:** Byddai ymgyrch *atal sefydliad rhag rhedeg gwasanaeth* ("Denial of Service") yn gallu cael ei wireddu drwy drefnu bod gorlwyth o draffig yn cael ei yrru i'r gwasanaethau digidol hynny sy'n wynebu'r cyhoedd a bod y gormodedd hynny'n fwy na all ein systemau ymdopi a hwy. Yn aml, byddai ymosodwyr yn defnyddio cyfres o gyfrifiaduron o dan eu rheolaeth ar gyfer cynnal ymosodiad o'r fath a byddai'n hanfodol bod gwarchodfeydd ar berimedr isadeiledd yn gallu adnabod ymosodiadau o'r fath gan atal y traffig cyn iddo ddod yn niweidiol.

Trefniadau Gwynedd: Mae systemau mewn lle sy'n edrych yn gyson am y math yma o weithgaredd ar yr haenau amrywiol o berimedrau rhwydwaith y Cyngor. Mae'r rhain wedi eu dylunio i adnabod gweithgareddau fyddai'n gallu amharu ar wasanaethau ac eu atal rhag cyflawni hynny.

- 3.4 **Deunydd Maleisus:** Gall deunydd maleisus ddod mewn llawer ffurf, a'i effeithiau yn amrywio o anghyfleuster ysgafn i anallu sefydliadau i weithredu. Esiampl adnabyddus o ffurf o feddalwedd o'r fath yw meddalwedd pridwerth ("ransomware"). Byddai meddalwedd yn cael ei osod ar gyfrifiadur gan seibr derfysgwyr gyda'r bwriad o greu malais gan amgryptio data'r cyfrifiadur fel nad oes modd ei ddarllen na'i ddefnyddio, byddai'r meddalwedd maleisus yn lledaenu i gyfrifiaduron a storfeydd cysylltiedig gan amgryptio pob gronyn o ddata ar ei siwrne. Cymhelliad ymosodiad o'r fath yw i droseddwr fynnu taliad pridwerth cyn dadgryptio'r data. Gyda'r pridwerth fel arfer yn mynnu cael eu talu mewn arian crypto, megis bitcoin, fel bod modd i'r troseddwr gadw'n anhysbys.

Mae nifer o gamau i'w cymryd i liniaru'r risgiau sy'n perthyn i hyn, yn amrywio o atal y meddalwedd rhag cyrraedd peiriannau yn y lle cyntaf, amharu ar ei allu i weithredu, a trefnu bod mesurau adfer effeithiol yn bodoli petai ffeiliau yn cael eu difrodi.

Trefniadau Gwynedd: Mae gan y Cyngor brosesau a systemau i adnabod ac analluogi deunydd maleisus, hynny yn cynnwys rhaglenni hidlo traffig ac e-bost, rhaglenni gwrth-firws ac atal gweithgareddau amheus, a gweithdrefnau o ymarfer da megis rheoli'r nifer o gyfrifon sydd a uwch-hawliau. Mae pwyslais gref o adfer pe byddai ymosodiad llwyddiannus a mae trefniadau mewn lle i sicrhau bod copiâu wrth-gefn, sy'n cynnwys sawl fersiwn o ffeiliau petai angen adfer colledion ar i ddyddiad penodol. Byddwn hefyd yn cynnal ymarferion parhaus i hysbysu ac atgoffa cydweithwyr am y risgiau mewn perthynas â deunydd fel hyn.

- 3.5 **Systemau Bregus:** Mae adnabod ac amlygu gwendidau mewn eitemau o feddalwedd yn ddiwydiant mawr, ac mae'n hanfodol bod cyflenwyr meddalwedd yn creu a darparu cyweiriadau amserol cyn i unigolion neu sefydliadau â bwriadau gelyniaethol gymryd mantais o'r gwendidau hynny i'w mantais eu hunain. Mae'n hanfodol bod pob eitem o feddalwedd â chytundeb cefnogaeth gyda'r darparwyr i baratoi a derbyn cyweiriadau mewn ymateb i ddigwyddiadau diogelwch, a wedi iddynt gael eu rhyddhau mae'n angenrheidiol i'r Cyngor osod y cyweiriadau mewn modd amserol.

Trefniadau Gwynedd: Mae gan y Cyngor systemau mewn lle i adnabod meddalwedd sydd angen eu diweddaru a phrosesau yn eu lle i lawrlwytho a mewnosod y diweddariadau hynny a phrosesau ychwanegol wedi eu sefydlu i gynnal asesiadau am statws a fersiynau ein meddalwedd i sicrhau nad oes methiannau.

- 3.6 **Gwe-rwydo:** Mae 'gwe-rwydo' yn derm â ddefnyddir i ddisgrifio'r gweithgaredd gelyniaethus o anfon neges (e.e. e-bost) at rywun mewn gobaith y byddai'r derbynnydd yn gweithredu mewn rhyw ffordd fyddai o fantais i'r anfonwr. Mae angen bod yn wyliadwrus o'r risg yma pan yn derbyn negeseuon gan ystyried pob tro os oes nodweddion amheus amdano. Yn anffodus, mae cynnydd gwirioneddol yn y math yma o ymosodiadau, a'r nifer sy'n disgyn am y sgamiau.

Trefniadau Gwynedd: Mae gan y Cyngor system hidlo e-bost mewn lle sydd yn asesu addasrwydd cynnwys neges ynghyd a'i ffynhonnell o safbwynt risg. Yn ogystal â hyn, mae trefniadau cyfnodol mewn lle i hysbysu ac atgoffa cydweithwyr am risgiau, fel y gallent ymateb mewn ffordd addas petai neges o'r fath yn eu cyrraedd. Mae ymarferiad penodol wedi ei drefnu eleni ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn 2021/22 i weld pa mor effro yw gweithlu'r Cyngor i negeseuon gwe-rwydo.

- 3.7 **Methiant Parhad Gwasanaeth:** Mae'r galw am, a'r dibyniaeth ar dechnoleg wedi codi'n sylweddol mewn blynyddoedd diweddar. Ymhellach, mae'r cyfnod argyfwng Covid-19 wedi cadarnhau hynny, ac mae disgwyliadau ein defnyddwyr o'r gwasanaeth a roddir iddynt wedi codi. Disgwylir bod y gwasanaeth ar gael drwy'r amser, felly mae gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio oddi allan i oriau craidd, i leihau aflonyddwch ar wasanaethau. I gynnal amgylchedd sy'n cwrdd â disgwyliadau swyddogion y Cyngor a'n defnyddwyr gwasanaeth, mae'n hanfodol bod y ddarpariaeth yn hydwyth. Golygai hynny gynllunio dulliau o gyflawni'r angen mewn amgylchiadau ble bydd systemau wedi ei cyfaddawdu neu ddim ar gael o gwbl. O safbwynt technoleg gwybodaeth, golygai hyn sicrhau fod systemau, adnoddau cefnogol a darpariaeth wrth-gefn mewn lle.

Trefniadau Gwynedd: Mae prosiect yn parhau ar gyfer ymestyn argaeledd systemau allweddol y Cyngor. Cyflwynir gwasanaethau gweinyddwyr rhithwir o ddwy ganolfan data gyda gwasanaethau'n parhau pe byddai methiant i un o'r canolfannau yma.

- 3.8 **Methiant Ymateb i Ddigwyddiadau:** Y dull mwyaf effeithiol o brofi effeithiolrwydd camau lliniaru yw drwy gynnal ymarferion ail-greu amgylchiadau fyddai â photensial i fod yn niweidiol, gan asesu llwyddiant yr ymarferiad i atal neu leihau'r amhariad. Gall amgylchiadau digwyddiad amrywio yn fawr, felly mae'n hanfodol i gynllunio i fanylder ynghyd ag adolygu a datblygu ein mesurau ymateb.

Trefniadau Gwynedd: Mae hyn yn rhan allweddol mewn ymgorffori rhai o'r camau sydd wedi eu disgrifio yn y ddogfen yma ac mae'n broses cyson. Mae'r Cyngor yn gweithio gydag asiantaethau eraill i sefydlu cynlluniau argyfwng ac ymarferion ymateb i ddigwyddiadau amrywiol fel rhan o'i ddyletswydd cynllunio argyfwng.

4. Achrediadau

- 4.1 **Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (Public Services Network, "PSN"):** Pwrpas y PSN yw gweithredu fel rhwydwaith annibynnol i'n rhwydwaith gorfforaethol ac yn cael ei rannu gan amryw o wasanaethau cyhoeddus cenedlaethol ar draws y Deyrnas Unedig.
- 4.2 Mae'r Cyngor angen cysylltu â'r rhwydwaith yma er mwyn darparu rhai gwasanaethau hanfodol, yn benodol yn y meysydd budd-daliadau a chefnogaeth oedolion. Un o'r prif egwyddorion y PSN yw'r angen i ymddiried yn oll o'r sefydliadau sydd wedi cysylltu i'r rhwydwaith y PSN, ac i'r perwyl hwnnw mae angen cyrraedd safonau penodol o safbwynt diogelwch. Fe waherddir cyswllt pe na byddai achrediad cyfredol.
- 4.3 Fe gyflwynir cais i gysylltu i'r rhwydwaith y PSN i Swyddfa'r Cabinet (Llywodraeth y Deyrnas Unedig), yn eu rôl fel ceidwad y rhwydwaith, gan gyflwyno tystiolaeth penodol sy'n cynnwys asesiad diogelwch gan gwmni trydydd parti ardystiedig a chynllun i adfer unrhyw eitemau risg uchel fu ei ddarganfod.
- 4.4 Bu i'r Cyngor sicrhau ei achrediad presennol ym Mai, 2021. Mae achrediad o'r fath yn rhoi sicrwydd annibynnol o lefel a mesurau diogelwch sydd wedi eu sefydlu gan y Cyngor.

5. PSBA (Public Sector Broadband Aggregation)

- 5.1 Menter Cymru gyfan yw'r PSBA i gyflwyno rhwydwaith ardal eang sydd wedi ei ddylunio ar gyfer a gan wasanaethau y sector gyhoeddus. Roedd Cyngor Gwynedd yn un o ddefnyddwyr cyntaf y PSBA, ac rydym yn parhau i gyfrannu ar gyfeiriad strategol a thechnegol y rhwydwaith.
- 5.2 Mae'r PSBA yn galluogi byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg uwch a phellach, gwasanaethau brys golau glas, a chyrrff cyhoeddus eraill i ddarparu gwasanaethau effeithlon ar gyfer y boblogaeth, drwy ddefnyddio gwasanaethau rhwydwaith arloesol, cost effeithiol, dibynadwy gan dderbyn cyfeiriad gan fyrddau penodol sy'n cynnwys cynrychiolaeth ar draws y sector, gan gynnwys Cyngor Gwynedd.
- 5.3 Mae diogelwch yn gynhennid i'r gwasanaeth yma, gan gynnig amddiffynfeydd ychwanegol i'r hyn sydd ar ymyl ac oddi fewn i rwydwaith y Cyngor ac yn gweithredu fel sylfaen sy'n cefnogi gweddill ein isadeiledd.

6. Prentis

- 6.1 Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi penodi Prentis Diogelwch Seibr, drwy gynllun prentis wedi'i drefnu gan y Cyngor. Byddwn yn croesawu'r prentis i'r tîm estynedig yn Awst, 2021 gan ei rhyddhau i fynychu'r Brifysgol ar gwrs gradd B.Sc. mewn Diogelwch Seibr.

7. Ystadegau digwyddiadau

- 7.1 Nid yw'r Cyngor wedi dioddef colledion yn deillio o ddigwyddiad seibr diogelwch o fewn y 5 mlynedd diwethaf. Mae systemau diogelu a monitro mewn lle ar ymylon rhwydwaith y Cyngor, ac o fewn y rhwydwaith, sy'n tynnu sylw at eitemau neu weithgareddau gelyniaethus. Mae digwyddiadau o'r fath yn gyson, gyda negeseuon e-bost amheus, sganiau dirgel am wybodaeth technegol ac ymgeisiadau i ymosod ar ein adnoddau yn weithgaredd arferol dyddiol, yn hytrach na rhywbeth anghyffredin.

8. Cloi

- 8.1 Cynyddu fydd y gweithgareddau gelyniaethus hyn ac er ein ymdrechion i amddiffyn ein isadeiledd a'n systemau o ymosodiad gan derfysgwyr seibr, ni ellir rhoi gwarant 100% bod modd atal pob ymdrech. Rydym eisoes wedi nodi bod ein ymdrechion ar gyfer gwytnwch ein gwasanaethau yn gyfuniad o amddiffynfeydd seibr a'n gallu i adfer o sefyllfa pe byddai ymosodiad yn torri trwy'r amddiffynfeydd. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu ar y gofrestr risg corfforaethol, gan nodi risg o debygolrwydd lled isel (2) ac effaith uchel iawn (5).